



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

Cell
5273
56.30

Roberts - Odiau Pererin - 1883




Call 5273.56.30




Harvard College Library

FROM

Humphrey Richards





100

ODLAU PERERIN.



ODLAU PERERIN;

—SEP—

DARNAU BARDDONOL AR WAHANOL DESTYNAU.

GAN OWEN C. ROBERTS,

CLEVELAND, IOWA.

Break, break, break,
On thy cold gray stones, O sea !
And I would that my tongue could utter
The thoughts that arise in me.

Break, break, break,
At the foot of thy crags, O sea !
But the tender grace of a day that is dead,
Will never come back to me.

O Death in Life ! the days that are no more.

TENNYSON.

UTICA, N. Y.

T. J. GRIFFITHS, ARGRAFFYDD, 131 GENESEE ST.

1883.

Celt 5273.56.30

HARVARD COLLEGE LIBRARY
GIFT OF
HUMPHREY RICHARDS

Oct 15, 1934

R H A G Y M A D R O D D.

Mae yn wir angenrheidiol rhoddi esgusawd dros gyhoeddi y llyfryn bychan hwn, gan nad yw hyd yn nod ei awdwr yn ystyried ei fod yn teilyngu cyhoeddusrwydd, ac ni ddychymygwyd rhyfygu ei gyhoeddi hyd yn ddiweddar iawn. Ni fydd neb a gymer y drafferth i'w ddarllen yn fwy ymwybodol o ffaelectedau y cyfansoddiadau a gynwysa na'r awdwr ei hun; ac, yn wir, nis gall lai na chywilyddio wrth ddarllen llawer darn cyffredin ac anfarddonol sydd ynddo; felly nis gall ei feirniadu beri unrhyw ddifyrwech na digrifwech i'r rhai mwyaf trachwantus am y gorchwyl hwnw.

Wel, ynte, mae yn naturiol gofyn, Paham y gwthir yr un bychan anhymig ac annheilwng i sylw? Gall yr awdwr anfodus ateb yn ddigon priodol yn ngeiriau y goruchwyliwr anghyfiawn hwnw yn yr Efengyl, "Cloddio nis gallaf, a chardota sydd gywilyddus genyf." Dichon mai rhy ddiog i gloddio oedd y cadnaw hwnw, ond gwyr pawb sydd yn adnabod yr awdwr, nad hwnw yw y pechod parod i'w amgylchu ef, a phe na buasai wedi colli nerth ei aelodau, nes ei analluogi i gloddio, ni feddylasai byth am ymddangos o flaen y cyhoedd fel awdwr. Gan ei fod wedi cyfarfod â damwain yn y gwaith glo er's llawer o fisoedd, a'i fod erbyn hyn yn hollol argyhoeddedig na ddaw byth yn alluog i ddefnyddio arfau cloddio mwy, yr oedd raid meddwl am foddion cynaliaeth ryw ffordd arall, i gadw corph ac enaid mewn undeb a'u gilydd am beth amser eto, os yr Arglwydd a'i myn, a meddylwyd rhoddi prawf ar y cynllun hwn. Er nad yw derbyn arian am y llyfryn bychan hwn nemawr gwell na chardota, bydd yn foddion i gadw ei *bedler* o afael y *vagrant act*. Gall pawb

a'i pryna fod yn dawel ei feddwl, os na chaiff werth ei arian, ei fod yn gwneyd gweithred o drugaredd a chyd-greadur anfodrus; felly credir nad edifarha neb am ei brynu, pa mor wael bynag ydyw. Ac os na fydd yn werth genych ei ddarllen ar ol ei brynu, rhydd yr olwg arno foddlonrwydd a boddhad i'r meddwl, eich bod wedi estyn ychydig gynorthwy i hen Bererin llesg, ar ei daith flin trwy anialwch sychlyd a diffaethwch dreiniog a chorsiog y byd drwg presenol. "Dygwch feichiau eich gilydd," ydyw y gorchymyn dwyfol. Y mae dymuno yn dda i'n gilydd, a gweddio dros ein gilydd, yn ddyledswydd arbenig arnom, mae'n wir, ond mae dwyn beichiau ein gilydd yn llawer gwell arwydd o dduwioldeb. Mae rhoddi dolar yn llaw dyn tlawd mewn angen, yn well yn ngolwg nefoedd a daear, na chant o weddïau dynion cybyddlyd ar ei ran.

Mae gan yr awdwr ddigon o ymddiried yn nhosturi a haelfrydedd ei gydgenedl i gredu y caiff ei lyfryn bychan werthiant helaeth yn eu mysg, nid ar gyfrif dim teilyngdod sydd ynddo, ond yn hytrach o dosturi tuag at gyd-ddyn profedigaethus.

Cafwyd cryn lawer o drafferth i gael y cyfansoddiadau i'r drefn y maent, gan nad oedd ar law ond scribliadau annherffsaith o lawer o honynt. Methwyd hefyd a chael gafael mewn llawer o ddarnau gwell na rhai sydd i mewn. Ni chymerwyd gofal i gadw y darnau, gan na feddylid y byddai galwad am danynt.

Nid oes lle i obeithio y caiff neb nemawr o fudd na boddhad wrth ddarllen y tu dalenau canlynol, ond gellir bod yn lled sicr na fydd neb yn waeth o'u darllen, beth bynag.

Gan obeithio y caiff ei ODLAU annheilwng dderbyniad caredig gan ei gydgenedl, y gorphwysa y trallodus,

PERERIN.

CYFLWYNIR

YR ODLAU HYN

I

MR. M. G. THOMAS,

(CAMARCHE),


Fel cydnabyddiaeth fechan am ei ffyddlondeb anghyymarol i'r awdwr am ysbaid misoedd o gystudd blin. Bu ei gyfeillach ddyddorol yn foddion i galonogi a chynal i fyny feddwl ei gyfaill trallodus, pan y byddai y pruddglwyf a'i boenau corphorol bron a'i lethu.

Wedi cyfarfod ein gilydd yn Australia fflynyddau yn ol, hir-aethem yn fynych am gymdeithas y naill y llall yn y wlad hon. Arweiniodd Rhagluniaeth drugarog ef i'm cysuro a'm dyddanu pan oeddwn, i bob golwg ddynol, yn ymyl "glyn cysgod angau."

Hir oes, a dedwyddwch tymorol a thragywyddol iddo, yw gwir ddymuniad,

Ei Gyfaill,

PERERIN.



CYNWYSIAD.

	TU DAL.
Samson	9
Rhiangerdd—Gwladys Morgan	33
Ŷ Deyrnas Lysieuol	55
Tuchangerdd—Y Llen-Leidr	67
I Rwgachwyr Cerddorol ar ol Eisteddfod	74
Y Llifeiriant	75
Y Diffyg ar yr Haul, Awst 18, 1868	78
Y Bedd Unigol	80
Cân Genedlaethol	85
“Oes y Byd i'r Iaith Gymraeg”	88
Fy Anwyl Waith fy Hunan	90
I'r Trwynlwchwr a'r Myglyswr	92
“Agor dy Lygaid cyn agor dy Geg”	92
“Gwell Gwraig o'i Chanmol”	94
Troion Gwyddelig	96
Y Fam a'i Phlentyn Claf	98
Fy Nheimlad mewn Cystudd, 1861	99
Fy Mhrofiad mewn Cystudd, 1881	100
Hiraeth am Gymru	101
Henaint	102
Galareb am y Diweddar Mr. John Davies, Fegla-fawr, Meir- ion, G. C.	103
Blwyddyn i Heno	105
Ni Chel Grudd Gystudd Calon	106
Phonographia	108
Beth yw Cartref?	109

Penenwad (<i>Acrostic</i>)	111
Penenwad eto	112
Serch Gân	112
Llinellau i Richard J. Rosser	114
Englynion	115
The Drunkard	116

ODLAU PERERIN.

SAMSON.

[DYFFYNIADAU O BRYDDEST.]

Aeth Samson ryw ddiwrnod i waered i Gazah,
Yr hon oedd yn un o brif drefi Philistia,
Ac yno canfyddodd buteinwraig brydweddol,
Ac a aeth i mewn at y feinir ddeniadol.
Y newydd ymsaethodd fel mellten trwy'r
ddinas,
Fod Samson i mewn, 'r hwn wnaeth gymaint
galanas
Yn Ascalon, Timnath, ac hefyd yn Lehi,
A llawer man arall rhy aml idd eu henwi.
Y Gaziaid dd'wedasant, "Trwy'r nos y cyn-
llwynwn,
Yfory ben boreu y gelyn a laddwn ;
Nis gall fyned allan, mae'r pyrth yn rhy gryf-
ion,
Diogel o'r diwedd yw'r adyn, myn Dagon."
Hyd haner nos Samson yn dawel orweddodd,
Ond ar yr awr hono efe a gyfododd,

Ac aeth at y porth rhag ei flaen yn ddigyffro,
 Nid oedd yno hanes am neb i'w lofruddio,
 Na hanes am undyn i agor y drysau,
 Er mwyn iddo fyned tu allan i'r muriau ;
 Y Gaziaid digalon ni feddent wroldeb,
 Pan glywsant e'n dyfod, i sefyll 'n ei wyneb ;
 Ciliasant o'r neilldu mewn dychryn i lechu,
 Hwyl wnaethant yn hynod o gall o ran hyny.
 Yn nrysau y porth a'r ddau bost fe ymaflodd,
 Ac ar ei ysgwyddau efe a'u gosododd ;
 Ac aeth a hwy felly i fyny'n hawdd ddigon
 I gopa rhyw fryn sydd gyferbyn a Hebron.
 Wrth weled ei gryfder edrychai y Gaziaid
 Y naill ar y llall, llygadrythent fel ffyliaid ;
 'R oedd cymysg deimladau o ddychryn a siom-
 iant

Yn mron a'u dyrysu o herwydd aflwyddiant ;
 Hwyl feient eu gilydd nes aeth yn ymrafael,
 Na buasent yn rhuthro ar unwaith i afael
 Yn Samson pan wel'sant e'n dod mor ddigyffro,
 Y buasent fel hyny yn llwyddo i'w rwymo.
 " Wel peidiwch," medd un, " a chymeryd eich
 siomi,

Ai ni chlywsoch ganwaith ei hanes yn Lehi,
 Pan laddodd ef fil gyda dim ond gën asyn,
 A'r miloedd ddiangodd o'i ffordd yn eu dy-
 chryn ;

A'r bar a gymerodd i ganlyn y drysau,
 Lladdasai â hwnw, 'rwy'n credu, filiynau.
 Yn lle ymrafaelio, dewch anwyl gyfeillion,
 Rhybuddiwn bob enaid i alw ar Dagon,
 Ac erfyn ei nawdd a'i wastadol amddiffyn,
 Rhag ofn i ni syrthio'n ysglyfaeth i'r gelyn ;
 Nid ydyw ein muriau a'n drysau, mae'n amlwg,
 Un gronyn amgenach na niwl yn ei olwg."
 Cydunodd y cyfan mai hyny f'ai ddoethaf,
 Mai dyna'r ffordd oreu i fyw yn ddianaf.
 Peth hawdd oedd ymostwng a galw ar Dagon,
 Ond hollol anmhosibl oedd dal a lladd Samson.

Cawn ein gwron, er ei gryfder,
 Yn ysglyfaeth llwyr i'w serch,
 Mae ei galon yn nghadwynau
 Cryfion, d'ryslyd, swynion merch ;
 Nid oedd rhaffau ar y ddaear
 Ddaliai y fath nerthol un,
 Ond mae'r cryfaf megys plentyn,
 Pan yn magl hudoliaeth mun.

Gwraig oedd hon yn nyffryn Sorec,
 Ac yn un o dylwyth Dan,
 Ei chas enw, sef Dalilah,
 Gwarthrudd bythol fydd ei rhan ;
 Gwraig anffyddlon ydyw'r felldith
 Benaf ar y ddaear hon,

Ac un felly oedd Dalilah,
Lloches Satan oedd ei bron.

Arglwyddi'r Philistiaid i fyny yr aethant,
Ac wrthi'n gyfeillgar a siriol d'wedasant :
"Os medri ei hudo, a chael rywfodd allan
Pa le mae ei nerth, ni a'th feichiwn ag arian ;
Rho'wn fil a chant iti, bob un, gelli goelio,
Dymunem ei gael ef yn rhwym i'w gystuddio ;
Os bydd i ti enill y wobr anrhydeddus,
Ti fyddi'n arglwyddes gyfoethog a pharchus."
Y mae rhyw ddylanwad gorswynol gan Mamon,
Yn mhob oes o'r byd ar galonau plant dynion,
Caiff ef ei addoli a'i barchu gan filoedd
Nad ymostyngasant erioed i Dduw'r nefoedd ;
Ei benaf weinidog, yn ddiau, oedd Judas,
A hithau Dalilah yn ail yn ei deyrnas ;
Mae enwau'r ddau yna yn fwy dirmygedig
Nag enwau melldigaid yr engyl syrthiedig.
'Roedd anfad gynygiad arglwyddi'r Philistiaid
Yn hoff gan Dalilah drachwantus ei henaid ;
Ac meddai wrth Samson, "Atolwg, mynega
Pa le mae dy fawr-nerth, i'th anwyl Dalilah,
A pha fodd, pe mynid, y gellid dy rwymo
Yn hollol ddiogel, i gael dy gystuddio."
Ac wrthi'n siriol y dywedodd Samson,
"Pe rhwymid fi â saith o wdyn irion,

Rhai na sychasant, yna y gwanychwn,
 Ac yr un ffunud a gwr arall byddwn."
 Anfonodd hithau i lawr yn falch ei chalon,
 At yr arglwyddi am y gwodyn irion,
 A hwythau ddaethant gyda brys a'r gwodyn
 Rhagoraf, i ddiogel rwymo'r gelyn.
 Y gas Ddalilah gyda'i chalon ddieffig,
 A ymddangosai'n siriol a charedig,
 A thrwy ffug-chwareu mynodd gael ei rwymo.
 Yr oedd Philistiaid ganddi yn ymguddio,
 Yn barod i'w gystuddio ef yn union.
 "Y mae'r Philistiaid," meddai, "arnat Samson."
 Nid oedd y gwodyn irion a hydwythig,
 Gan Samson ond fel edau garth losgedig;
 Gan hyny ni wybuwyd maint ei gryfder,
 Yr hyn oedd i Dalilah'n achos prudd-der,
 A siomedigaeth anghydmorol hefyd,
 Ac meddai wrtho gyda sur wynebpryd,
 "Tydi a'm twyllaist ac a dd'wedaist gelwydd,
 Na fydd mor gas, mynega'r gwir yn ebrwydd."
 "Wel, pe gan rwymo," meddai yntau'n dirion,
 "Y rhwymment fi â rhaffau da, newyddion,
 Heb fod mewn gwaith, mae'n ddiâu y gwau-
 ychwn,
 Ac yr un ffunud a gwr arall byddwn."
 A hi a'i rhwymodd felly gyda'r rhaffau,
 Ac a adroddodd wrtho yr un geiriau,

"Y mae'r Philistiaid," meddai, "arnat, Samson."
 Pan dd'wedodd hyn, nid oedd y rhaffau cryfion
 Ond megys pwrdr edafedd gan ein gwron
 Dalilah gafodd siomedigaeth eto,
 Yr oedd o'r herwydd erbyn hyn yn wylo,
 Ac meddai wrtho, fel ar dori 'i chalon,
 "Pa fodd yr wyt yn gallu bod mor greulon?
 Hyd hyn i'm twyllaist ac y d'vedaist gelwydd,
 Dychryna ddyn, rhag tynu barnau'r Arglwydd
 O'r nefoedd arnat, am y fath anwiredd;
 Wel, dywed bellach wrthyf y gwirionedd."
 "Pe plethit fy saith gudyn," meddai yntau,
 "Yn nghyda'r we, gwanychwn yn ddiamau."
 Yr oedd Dalilah, er ei siomedigaeth,
 Yn benderfynol am yr oruchafiaeth;
 Ond er yn ofni ei fod unwaith eto
 Yn d'wedyd celwydd, nid oedd byth am ildio;
 A phan y cafodd Samson wedi hepian,
 Hi wnaeth ei wallt yn sier & hoel y garfan.
 "Y mae'r Philistiaid," meddai, "arnat, Samson."
 Ac yntau a ddeffrodd o'i gwsg yn union,
 Ac a aeth ymaith gyda hoel y garfan.
 Peth digrif ydoedd gwel'd y we yn hongian
 Ar hyd ei gefn fel mantell laes offeiriad.
 Ni cha'dd Dalilah eto mo'i dymuniad;
 Yr oedd y ddynes erbyn hyn yn dawnsio
 Gan natur ddrwg, a meddai'n ddigllon wrtho:

"Ow! Samson, pa fodd y dywedi,
 'F'anwylyd, cu genyf dydi?'
 Na ddywed byth mwy'r fath anwiredd,
 A'th galon heb fod gyda mi;
 Ni fynaf ychwaneg o'th ragrith,
 Yr wyt yn fy mherffaith gasâu;
 Ac os buost gynt yn fy ngharu,
 Dy gariad sydd wedi pellhau.

Tair gwaith yr wyt wedi fy nhwylo,
 'R oedd hyny'n waith creulon dros ben,
 Ni dd'wedaist pa le mae dy gryfder,
 Tydi yw'r creulonaf tan nen;
 Nid oes yr un dyn ar y ddaear,
 Allasai byth ymddwyn mor wael,
 A thwylo dair gwaith ei anwylyd—
 Pa le mae'r anfad-ddyn i'w gael?

Mae'n rhyfedd na buasai y ddaear
 Cyn hyn yn dy lyncu yn fyw;
 Hi lyncodd dy well, mae yn ddiâu,
 Rhai ddigiodd lai lawer ar Dduw;
 Gad heibio dd'weyd celwydd a'm twylo,
 Na chymer fi mwyach yn sarn;
 Ymddyga fel dyn tuag ataf,
 Rhag ofn y daw arnat ryw farn."

Yr ydoedd bellach yn ddifrifol iawn
 Ar Samson druan, gyda chalôn lawn

O dristwch llethol, poenai 'i enaid ef,
 A'i chwerw deimlad, a gwylofus lef
 Dywalltai allan, pan oedd wrtho'i hun,
 Ar ol myn'd o felldigaid swyn y fun,
 Oedd fel y ddraig i'w frathu ef o hyd ;
 Yr ydoedd wedi blino ar y byd,
 A theimlai 'i hun yn myned yn ddihoen,
 Chwenychai farw gan ei ddirfawr boen ;
 Yr oedd ei ofid yn rhy drwm i'w ddwyn ;
 Fel hyn tywalltai ei alaethus gwyn :

“ O ! pa beth a ddaw o honwyf ?
 Mae fy nghalon fel y plwm ;
 Nis gall f'enaid byth ymgynal
 O tan faich mor lethol drwm ;
 Nid oedd lladd y llew a'i holhti,
 Ond fel chwareu genyf gynt ;
 Gyrais filoedd o Philistiaid
 Megys us o flaen y gwynt.

Cariais byst a drws porth Gazah
 Fry i ben rhyw uchel fryn ;
 Llauer o orchestion eraill
 Wnes o dro i dro cyn hyn ;
 Ond Ow ! heddyw y mae mawr-lwyth
 Ar fy enaid megys craig,
 A fy nghalon yn chwyddedig
 Gan frathiadau colyn draig.

Mae fy mynwes fel pe byddai
 Ar ymddryllio gan fy nghur ;
 Digon yw fy nîrfawr drallod
 I chwilfriwio calon ddur ;
 Nid oes gysgod rhag y dymestl
 Ond yn nglyn marwolaeth draw,
 Neu dd'weyd wrthi'r holl gyfrinach
 Am fy nghryfder, doed a ddaw.

Beth a wna? 'rwyf yn petruso—
 Af, mynegaf iddi hi
 Y dirgelwch am fy mawr-nerth,
 Er rhoi terfyn ar ei chri,
 Onide hi ddryllia'm calon,
 Gyr fi'n fuan i fy medd ;
 Nid oes genyf gynllun arall
 I gael adfeddianu hedd.

Aeth at Dalilah gyda golwg brudd,
 A'r dagrau'n llifo tros ei welw rudd ;
 Meddyliai hi mai edifeirwch dwys
 Am dd'wedyd celwydd oedd y dirfawr bwys
 Oedd ar ei feddwl, yn cythryblu 'i hedd,
 Nes tori allan ar ei athrist wedd ;
 Ei galon oll fynegodd iddi hi,
 Er mwyn cael gwarded o'i gwenwynllyd gri.
 " Y gwir ddywedaf," meddai, " yn ddi-len,
 Ni ddaeth erioed un ellyn ar fy mhen,

O herwydd Nazaread wyf i Dduw,
 Ac i fod felly tra y byddaf byw ;
 Pe eillid fi fy nerth a giliai'n siwr,
 Ar unwaith byddwn fel rhyw arall wr."
 Hi wybu iddo ddweyd y gwir yn awr,
 Anfonodd genad gyda brys i lawr
 Am enwog wyr Philistia—meddai hi,
 " Yn ebrwydd dewch i fyny'n awr mewn bri,
 Datguddiodd ei holl galon ger fy mron,
 Gan hyny de'wch yn unig y waith hon."

Pan gysgodd, Dalilah anfonodd am rywun
 I ddyfod yn union i eillio'i saith gudyn ;
 A hwnw'n grynedig aeth ati i'w eillio,
 Ond methai anadlu, rhag ofn iddo ddeffro.
 Ar ol myned trwy y gwasanaeth echryslon,
 "Y mae y Philistiaid," medd hi, "arnat Samson."
 Ac yntau ar hyny ddeffrodd yn ei gyffro,
 Ar unwaith pan gododd fe wybu ei eillio.
 " Y waith hon af allan fel cynt," meddai'n ebrwydd,
 Ni wyddai ef, druan, ymadael o'r Arglwydd
 Yn awr oddi wrtho, ond teimlodd yn fuan,
 O herwydd daeth arno ofnadwy gyflafan ;
 Y creulawn Philistiaid yn hawdd a'i daliasant,
 Er dechreu ei boeni ei lygaid dynasant.
 'Nol iddynt ei ddallu cernodient ef wed'yn,

Pob un fynai roddi brwnt ddyrnod i'w gelyn ;
 Ac yntau oedd druan yn gruddfan ac wylo
 O tan ei archollion, heb neb i'w gysuro.
 Arteithiau corphorol a phoenau meddyliol
 A'i gwnelent yn awr yn ofnadwy resynol ;
 Fel hyn y gweddiai mewn teimlad wylofus,
 A hwythau a'i gwawdient e'n hynod ddir-
 mygus :

“ O, fy Nuw, dod im' faddenant
 Am fy anfad bechod cas ;
 Cymer f'einioes oddi arnynt,
 Neu dod eto nerth i'th was ;
 O na boaswn wedi trengu
 Cyn cyfarfod a'r fath ferch,
 Boaswn heddyw'n berffaith ddedwydd,
 Yn lle'r fath sefyllfa erch.”

“ Ie'n wir, gweddia, druan,
 Dywed wrth dy Dduw dy gwyn,
 Os na wrendy dy ruddfanau,
 Rhaid ei fod yn lled anfwyn ;
 Gofyn iddo am ddau lygad
 Yn lle'r rhai dynasom ni ;
 Beth dâl nerth heb olwg hefyd ?
 Uda'n uwch, ni chlyw dy gri.

Rhodder iddo gernod eto,
 Nes y codo'n uwch ei lef,

A gofaler am roi digon,
 Nes y rhoddo uchel fref."
 Felly rhoddwyd dyrnod erchyll
 Ar ei welw, waedlyd rudd,
 Yntau syrthiodd yn llesmeiriol,
 Ar ol rhoi ochenaid brudd.

Ar ol ei ddirmygu yn greulon fel yna,
 Dygasant ef wed'yn i waered i Gazah ;
 Wrth fyn'd tuag yno crochfloeddiat'r ynfydion,
 Eu llwydd briodolent i'w heilun-dduw Dagon ;
 Cenadon a redent i lawr am y cynta',
 O flaen yr orymdaith, a'r newydd i Gazah ;
 Crochfloeddient yn enbyd ar hyd yr heolydd,
 " Y gelyn a ddaliwyd, daw yma yn ebrwydd."
 'Roedd rhai yn cam-ddeall y syn genadwri,
 A rhedent mewn dychryn at eraill i holi ;
 Ond nid oedd dim amser i rod-di atebion,
 I'r porth am y cyntaf y rhedai'r trigolion ;
 A llawer a redent eu hegni, gan dybied
 Mai ffoi am eu bywyd yr oeddynt am nodedd ;
 A rhai o'u trysorau a gipient i'w canlyn,
 Rhag ofn iddynt syrthio'n ysglyfaeth i'r gelyn.
 Ond pan gyrhaeddasant y porth yn eu cyffro,
 Rhai eraill, tan gellwair, ddechreuent eu
 gwawdio,
 Ac meddent, "Paham yr arswydwch, gyfeillion,
 A ydych am rod-di anrhegion i Samson ?

Yn wir, ni wna hwnw ddim byd a'ch teganau,
Ei lygaid a dynwyd," medd un o'r cenadau.

Hwy glywent yn awr er llawenydd a syndod,
Floeddiadau'r orymdaith yn adsain wrth ddy-
fod ;

A phan ddaeth i'r golwg, "Hwre !" meddai
rhywun,

"Hwre !" gwaeddai eilwaith, a miloedd i'w
ganlyn ;

Ar unwaith crochfloeddio "Hwre !" wnai'r
holl dyrfa,

Ni bu'r fath lawenydd erioed yn Philistia.

Ond Samson oedd, druan, bron wedi byddaru,

Rhai dybient ei fod ef yn awr wedi trengu ;

Peidiasant am enyd a'u hynfyd erch dwrw,

Ei ruddiau ganfyddent mor welw a'r marw.

Nid oedd y cre'duriaid annynol, ond dieffig,

Am iddo gael marw heb chwaneg o ddirmyg ;

A phan ddeallasant mai llewyg ddaeth drosto,

Y creulawn wallgofiaid ddechreuent ail-
floeddio ;

A bloeddio'n ddiderfyn a wnaeth y dorf anwar,

Hyd nes cyrhaeddasant i ymyl y carchar ;

Yr oedd myn'd i'r carchar yn well gan ein
gwron

Na gwranddo oernadau'r fath lu o'i elynion ;

Ond muriau'r carchardy oedd fel yn ei wawdio,

Yr oedd y rhai hyny yn cywir adseinio
 Udiadau aflafar y miloedd ynfydion
 Oedd allan yn rhoddi eu moliant i Dagon.
 Yr holl garcharorion oedd yn ei ddirmygu,
 Yr anfad lofruddion oedd arno'n crechwenu.
 'Nol blino ei boeni, fe'i rhwymwyd ef wed'yn
 A chryfion efynau o bres wrth ryw felin ;
 Ac, meddai'r arglwyddi, ar ol ei garcharu,
 "Tyr'd, fwystfil melldigaid, yn awr dechreu
 falu ;

Mae'n bryd iti bellach wneyd iawn am dy feiau,
 Her iti byth mwyach gyflawni troseddau ;
 Gyr arni, tro hona," medd ceidwad y carchar,
 "Yr wyt yn un hynod ddioglyd a byddar ;
 Mi glywais dy fod yn un cryf i'w ryfeddu,
 Ond gwelaf yn awr fod dy nerth wedi pallu ;
 Er hyny mae'n rhaid iti falu'n ddiiddiogi,
 Mae galwad neillduol am flawd i'n harglwyddi ;
 Ti ddylit falchio, a theimlo yn hapus,
 O gael gwasanaethu gwyr mor anrhydeddus ;
 Yr oeddynt, yn wir, yn drugarog iawn hefyd,
 Am adael i ti, yr antad-ddyn, dy fywyd,
 Na buasent yn rhuthro a thynu dy galon,
 Ac mewn cynddeiriogrwydd dy ddarnio yn
 yfflon."

O !'r dirmyg tost oddefai'r anwyl Samson,
 Heb dd'wedyd dim yn erbyn ei elynion ;

Ei galon oedd er hyuy yn ymddryllio—
 Esbonio'i fynwes wnai wrth ocheneidio ;
 Er bod tan loesau ei archollion gwaedlyd,
 A bron a marw yn nghrafangau adfyd,
 Mae'n gorfod gweithio'n galed wrth y felin,
 A phawb o'i gylch yn ymddwyn ato'n erwin,
 Heb neb yn meddu yr un gradd o gariad,
 Nac yn feddianol chwaith ar ddynol deimlad.
 Arllwysai brudd-weddiau edifeiriol,
 O flaen gorseddfa'r nefoedd yn wastadol ;
 Galara'n ddwys o herwydd i'w elynion
 Ei ddallu ef—a ganlyn oedd ei ymson :

"Ow ! ni chaf mwyach weled dydd,
 Fy mywyd bellach nos a fydd ;
 Fy nghorph a'm henaid heddyw sydd
 Yn ngharchar gwyll yn gaeth ;
 Os caf ryddhad o'r carchar hwn,
 Yr hyn sydd anobeithiol, gwn,
 Am byth dallineb fydd yn bwn,
 O ! 'r fath resynol aeth !

Bydd holl brydferthion natur dlos
 Am byth yn nghrombil ddu y nos,
 Cuddiedig fydd y gwridog rôs,
 A'r lili wen o hyd ;
 Byth ni chaf wel'd y lleuad wen,
 Na phoblog ddysglaer ser y nen,

Fel llygaid engyl uwch fy mhen,
Yn syllu ar y byd.

Ac ni chaf weled siriol wedd,
Un cyfaill mwy tu yma i'r bedd,
A'i galon yn argraffu hedd,
Ar ei wynebpryd llon ;
Ac ni chaf wel'd gwenieithus rai,
Er maint eu gwên, sy'n llawn o fai,
Eu calon ddu sydd fôr didrai
O wenwyn tan eu bron.

Byth ni chaf wel'd y gelyn cas,
Sy'n meddu calon wag o ras,
Yr hwn all frathu cleddyf glas,
I'm calon yn y fan ;
Ond O ! ni chaf byth ddod yn rhydd,
A th'w'llwch dudew ganol dydd,
Hyn, bellach, fydd fy nhynged brudd,
Dall, gwarthus, caeth a gwan."

Pan oedd y Philistiaid yn llawen eu calon,
Yn moli yn nheml yr eilun-dduw Dagon,
Yr oeddynt am fynu difyrwch yn ddibrin ;
"De'wch," meddynt, "A Samson i wneyd i ni
chwerthin,
Er mwyn cael difyrwch, aed rhywun i'w
gyrchu ;"

A rhedodd rhyw lencyn ar frys i'r carchardy.
 Dysgwyliai'r dorf anferth yn hynod awyddus,
 Am dano i'w gwneuthur yn fwy gorfoleddus ;
 I'r aberth a'r moliant y rhoddwyd y goreu,
 Er mwyn cael gwel'd Samson, eu gelyn, yn
 chwareu.

Pan ddaeth y chwareuwr i olwg y dyrfa,
 Crochfloeddiodd y cyfan nes siglo holl Gazah ;
 Ac arno ysgyrnygent eu danedd fel bleiddiaid,
 Gofyntent yn wawdus, " Pa le mae dy lygaid ?
 Yr wyt yn ymddangos yn drwsgl ac anghelfydd
 Ai ni fedri gerdded heb gymorth arweinydd ?"
 " Wel gollwng fi bellach i rod-di fy mhwysau,"
 Medd ef wrth y llanc, " ar rai o'r colofnau
 Sy'n cynal heb ysgog yr anferth adeilad ;
 A chafodd gan hwnw yn rhwydd ei ddymuniad.
 Y deml oedd yn orlawn o wyr ac o wragedd,
 O'r tlotaf o'r deiliaid i'r uwcha'i anrhydedd ;
 Pob un o arglwyddi'r Philistiaid oedd yno,
 A'u gwragedd a'u plant oedd gyda hwy'n
 gryno.

Yr oedd ar y nen o gylch tair mil, yn ddiau,
 Yn dysgwyl cael gweled eu gelyn yn chwaraeu.
 Pan welwyd e'n sefyll cydrhwng y colofnau,
 Hwyl waeddent, " Tyr'd bellach a rhai o dy
 gampau ;

A oes arnat awydd am gario'r rhai yna ?

Y maent yn rhy drymion i ti, yn wir, coelia' ;
 Dod un ar dy ysgwydd i ddechreu, mae'n ddi-
 gon,

Os nad wyt am orphwys cyn cyraedd i Hebron;
 Ond dichon dy fod erbyn hyn ddigon nerthol
 I gario'r adeilad i gyd i Estaol."

Pan oeddynt fel yna yn gwawdio a chwerthin,
 'R oedd Samson yn trydar y weddi a ganlyn :

"O, cofia fi eto, O Arglwydd, fy Ior,
 Trugaredd sydd ynot erioed yn ystôr ;
 Er maint fy mhechodau, maddeugar wyt ti ;
 Addolwyr y gau-dduw sy'n llon,
 A minau yn athrist fy mron,
 Er mwyn dy anrhydedd, O ! erglyw fy nghri.

Am unwaith yn unig dod nerth, O ! fy Nuw,
 Nid wyf yn teilyngu hyn yma, gwir yw,
 Er hyny na wrthod fy ngweddi yn awr ;
 Am dywallt dialedd mae'th was,
 Am benau'r Philistiaid di-ras,
 Am iddynt ei ddallu a'i boeni mor fawr.

Clyw fel mae'r ynfydion yn arllwys eu gwawd
 Ar enw'th Fawrhydi a'th blentyn tylawd ;
 O Arglwydd, na oddef eu cabledde o hyd ;
 Myn Dagon a hwythau i lawr,
 O ! nertha fi'n unig yn awr,
 I droi eu gorfoledd yn ruddfan i gyd.

O! nertha, O! nertha fi, Ior, y waith hon,
 'Rwy'n foddlon i farw yn awr ger dy fron,
 Wrth ddial fy ngham ar elynion y nef ;
 Eu teml sydd yn gadarn a mawr,
 Ond tynir hi'n garnedd i'r llawr,
 Os bydd iti wrando yn dirion fy llef."

Pan ydoedd fel yna'n gweddio 'n ddifrifol,
 Tan deimlad o herwydd ei gyflwr gresynol,
 Y creulon Philistiaid a'i cablent o'r herwydd ;
 Yr oeddynt yn wallgof gan ynyfyd lawenydd.
 "Clywch," meddynt, "mor daer mae'n gweddio
 am gryfder,
 Mae'n debyg yr etyb ei Dduw ef fyrder ;
 Os felly, fe chwal y deml yma yn gandryll,
 A ninau a leddir, heb undyn yn ngweddill.
 Tyr'd bellach, dod gyngyg o ddifrif yr awrhon,
 I dynu'r colofnau, gweddiaist lawn digon."

A Samson ymaflodd â'i ddwylaw yn dŷn
 Yn nerthol golofnau'r adeilad pryd hyn ;
 Ymgrymodd i rod-di ei nerth arnynt hwy,
 A'r dyrfa lon-floeddient a chwarddent fil mwy ;
 Ni buont mor llawen erioed yn eu dydd,
 Nid oedd o'r holl filoedd un fynwes yn brudd.
 Pan oeddynt ar ganol llon-floeddio "Hwre,"
 Daeth arswyd fel mellten dros bawb yn y lle !

Eu gelyn symudai'r colofnau yn awr,
 A'r ty'n bendramwnwgl yn chwalu i'r llawr!
 Y miloedd ar unwaith ddyrchafent groch lef
 Wylofus a nerthol, nes rhwygo y nef!
 A chyda'r waedd hono eu teml aeth yn sarn,
 A hwythau bob enaid a hyrddiwyd i'r farn!
 Fe'u tafwyd o uchder llawenydd bob un,
 Mewn eiliad i eithaf dwfn ofid a gwŷn!

Ow! Ow! y mae yntau ein harwr tan gladd,
 Yn nghanol adfeilion y deml wedi 'i ladd;
 Ei weddi ddifrifol gyrhaeddodd y nef,
 A'i gyflawn ddymuniad gan Dduw gafodd ef;
 Do, cafodd ryw gryfder difesur yn awr,
 I dynu'r fath adail yn garnedd i'r llawr;
 A'i wawdwyr dideimlad a laddodd bob un—
 Wrth ladd ei elynion fe laddodd ei hun;
 Gorchestion rhyfeddol a wnaeth lawer pryd,
 Ond hon oedd ryfeddach na'r cyfan yn nghyd.

Trwy'r wlad yn gyflym aeth y pruddaidd
 newydd,
 A daliwyd pawb gan ddychrynedig sobrwydd;
 Daeth miloedd i gael gweled syn olygfa,
 Sef gwel'd adfeilion teml ardderchog Gazah,
 A bod yn dystion o beth mwy, yn ddiau,
 Sef gweled y fath lu o gelaneddau.
 Awn ninau yno i roi tro am enyd,

Er tremio ar y garnedd fawr, ddychrynllyd,
 O fodau dynol sydd yn gymysgedig
 A choed a meini'r adail adfeiliedig.
 Ow ! dacw'r lle !—yn Gazah mae rhyw wagnod,
 'N ol iddi golli'r fath adeilad hynod.
 Och ! dyna'r fan, mae ger ein bron yn amlwg,
 Braidd na ddymunem fod heb glyw na golwg ;
 Mae ysgrechfeydd wylofus perthynasau,
 Wrth weled cyrph eu hanwyl rai yn ddarnau,
 Yn ddigon bron i fferu gwaed ein calon ;
 Y mae'r olygfa'n dost a gwir echryslon !
 Y mae gweddeidd-dra a theimladau dynol
 Yn lluddias in' ddesgrifio gwedd resynol
 Y cyrff drylliedig sydd yn mhob cyfeiriad,
 Yn gymysg ag adfeilion yr adeilad.
 Mae natur yn ymwrthod â'r olygfa,
 Aeth tros ein calon ryw lesmeiriol wasgfa.

Ond wele aew dorf ddifrifol
 Yn dyfal gloddio tua'r canol ;
 Eu dagrau gloewon a lifeiriol ddengys
 Eu bod yn chwilio'n fanwl a phryderus
 Am rywun sydd yn anwyl gan eu calon,
 Ond sydd yn gorph yn nghanol yr adfeilion.
 Corph ar ol corph symudant yn siomedig,
 A manwl syllant ar rai maluriedig ;
 Hen wr a golwg batriarchaidd arno,
 Sydd yn eu hymyl yn pryderus wyllo ;

Mae'n sychu'n fynych ei lifeiriol ddagrau—
 Cenadon tristwch—redant tros ei ruddiau.
 Pa beth sy'n bod?—dyeithrol gyfnewidiad
 Ddaeth tros wynebau'r dynion hyn mewn
 eiliad ;

Teimladau fel yn ymladd am yr orsedd,
 Ceir gwel'd pa un enilla yn y diwedd ;
 Y' mae llawenydd yn gwneyd nerthol egni,
 Ond tristwch sydd ar unwaith yn ei foddi ;
 Mae un o'r cyrff yn awr yn mreichiau'r dynion,
 A'r hen wr waedda, " O ! fy anwyl Samson ;"
 Ac wele, 'n wir, ein gwron oedd, yn ddiau—
 Wrth wel'd ei gorph nis gallwn rwystro'r
 dagrau ;

Rhyw wanaidd wrid sydd ar ei hawddgar
 wyneb,

A siriol wên, llawforwyn hoff tiriondeb.
 Ni cha'dd ei gorph prydweddol ei anharddu,
 Nid oedd un aelod wedi ei anafu ;
 Mae'r fywiol fflam er hyny wedi diffodd,
 Yr enaid at yr hwn a'i rhodd ehedodd.

Gadawn adfeilion teml ardderchog Dagon,
 Ac awn yn awr i gladdedigaeth Samson,
 I wel'd ei rod-di gan y dorf ddifrifol
 Yn medd ei dad, rhwng Sorah ac Estaol.
 Yr arch a'r elor sydd gerllaw yn barod,
 Maent yn amdoi y corph yn orwych hynod ;

Ei dad galarus fynai ei goffeidio
 Cyn cychwyn, a rhydd serchus gusan iddo.
 Yr elor sydd yn awr ar 'sgwyddau'r dynion,
 Dechreuant ar eu galarganau dwysion ;
 Wrth borth y ddinas wele dorf alarus
 Yn dysgwyl ac yn wyllo'n dor-calonus ;
 'Roedd gwirioneddol dristwch ar eu gruddiau,
 Wrth wel'd y corff dyrchafent brudd ddolefau ;
 Gwir ofid dwys, a dirfawr dristwch calon
 Feddianai bawb yn nghladdedigaeith Samson.
 Y brudd orymdaith pan yn gadael Gazah,
 A leddf ddatganent yr alargan yma :

" Calonau pawb yn Israel
 A fyddo heddyw'n brudd ;
 Na fydded un o'r genedl
 Heb ddeigryn ar ei rudd ;
 Fe syrthiodd un o'n cedyrn,
 Ein Samson, enwog un,
 Wrth ladd ein cas elynion
 Fe laddodd hwn ei hun.

Ein barnwr anrhydeddus,
 A'n cryf waredwr oedd ;
 Pwy feiddia'n awr ein beio
 Am roi galarus floedd ?
 O, pwy mor galon galed
 Na wyla'n hidl yn awr,

Mae'r nefoedd mewn galarwisg,
Ac ocheneidia'r llawr.

Ein bryniau a'n dyffrynoedd
Adseiniant alar gân ;
Tôn-nodau lleddf a glywir
Gan dannau'r adar mân ;
Mae anian oll yn bruddaidd,
Yn wir, pa ryfedd yw ?
Mae'r ddaear yn amddifad
O blentyn penaf Duw.

O !'r fath weithredoedd rhyfedd
Gyflawnodd yn ei ddydd ;
Y mae yn wir resymol
I Israel fod yn brudd ;
Trosglwyddir enw Samson
Tra byddo daear lawr ;
Yn nef y nefoedd hefyd
Ei enw fydd yn fawr.

Ow ! beth a ddaw o honom,
Ar ol ei golli ef !
O ! erglyw, Ior ein tadau,
Ein prudd alaethus lef ;
Dod ini farnwr eto,
Cyffelyb yn ei le,
Un wedi 'i gynysgaethu
A nerthoedd fel efe."

Yr angladd, bellach, sydd gerllaw y beddrod,
 Ac wrth nesáu chwanegu mae eu trallod ;
 Er maint alarent dan eu trallod chwerw,
 Nid oedd un gobaith cael yn ol y marw.
 Rhwng Sorah ac Estaol bydd ein gwron
 Yn tawel huno nes daw Brenin Seion
 Mewn rhwysg i alw'r meirw oll i fyny,
 Yr olaf ddydd, i gael eu cyfiawn farnu.

 RHIANGERDD.*

GWLADYS MORGAN.

'R oedd Cymro parchus gynt yn byw
 Yn Neheu Cymru Newydd,
 Ar lanau'r Murray flwyddau'n ol,
 Ystyrid ef fôl llywydd ;
 'R oedd ganddo gyfoeth yn ei ben,
 A chyfoeth yn ei logell ;

* Gan mai cerdd Australaidd yw hon, dichon fod ychydig o eglurhad yn angenrheidiol. Mae dynion cyfoethog yn nhrefedigaethau Australia yn prydlesu darnau mawrion o dir gan y Llywodraeth, am tua thair cent yr erw, i gadw defaid, a gelwir hwy yn *squatters*, a gelwir eu cartrefi yn *stations* (gorsafoedd). Mae y rhai sydd yn gofalu am y defaid, sef y bugeiliaid, yn byw mewn bwthynod, lle bydd praidd eu gofalu yn pori. Cedwir arolygwr (*coverseer*) uwchben yr holl fugelliaid.

Cymro cyfrifol o *squatter*, o'r enw Llewelyn Morgan, oedd tad y rhian, a bugail o'r enw Arthur Llwyd, oedd y cariadlanc.

Peth rhyfedd oedd i ddyn mor ddoeth
Fyn'd i'r fath le anghysbell.

'R oedd ganddo ferch, un dlos dros ben,
Ei unig anwyl Wladys,
Ei synwyr a'i phrydferthwch oedd
I'r parthau hyny'n hysbys ;
Bu llawer un o dro i dro,
Bron colli arno'i hunan,
Wrth ddyfal geisio enill serch
Y brydferth Gwladys Morgan.

Daeth llanc o'r enw Arthur Llwyd,
O Gymru i'r fro hono,
Ac at Llewelyn Morgan aeth,
I 'mofyn lle i fugeilio ;
Gwahoddwyd ef yn mlaen i'r ty,
I adrodd hanes Cymru ;
Bu Arthur yno trwy'r prydawn,
Yn nghwmni'r dedwydd deulu.

Pan gyntaf gwelodd Arthur Llwyd
Yr hardd-deg Gwladys Morgan,
Fe aeth mor goch ei wedd a gwaed,
A gwridodd hithau 'i hunan ;
'D oedd neb a wyddai ond eu dau,
Nac undyn wedi sylwi
Fod dim neillduol wedi bod
Tros wyneb neb o'r cwmni.

Adroddwn beth o hanes Llwyd,
 Cyn myned gam yn mhellach ;
 Nid mynych gwelir llanc mor hardd,
 Anfynych ceir ei gallach ;
 Yr oedd yn hanu, meddant hwy,
 O un o lwythau Gwynedd,
 Ond nid yw hyny fawr o bwys,
 Os ydyw yn wirionedd.

Mab i amaethwr ydoedd ef,
 O ymyl troed y Berwyn ;
 Ca'dd pan yn ieuanc addysg dda,
 A dysgodd lawer wed'yn
 Ar hyd llechweddau'r mynydd mawr,
 Pan ydoedd yn bugeilio ;
 Yr ydoedd hefyd yn well bardd
 Na llawer ga'dd eu hurddo.

Llewelyn Morgan dranoeth aeth
 Ei hunan gydag Arthur,
 I ddangos iddo ol a blaen
 Derfynau maes ei lafur ;
 Rhyfeddai'r arolygwr wel'd
 Ei feistr mor ostyngedig
 A myned yn lle'i yru ef,
 Yn nghwmni'r llencyn gwledig.

Edrychai Gwladys ar ei thad
 Ac Arthur Llwyd yn cychwyn,

A daliai 'i syllu arnynt hwy
 Nes aethant tros y moelfryn ;
 Meddyliai Gwladys ynddi 'i hun
 Am Arthur Llwyd yr awrhon,
 A'i theimlad pan y gwelodd ef,
 A dyma oedd ei hymson :

“ Pa beth oedd y teimlad drywanodd fy
 nghalon,
 Nes gwrido fy ngruddiau can goched a'r
 gwaed,
 Pan gyntaf y gwelais y llencyn serchoglon,
 A chrynu fel deilen o'm coryn i'm traed ?

Ond os oes rhyw ronyn o goel ar freuddwydion
 Mae genyf rith esgus i'w roi am fy ngwaith ;
 Efe ydoedd hwnw a welais ryw noson,
 Mewn lludded a syched yn flin ar ei daith.

Gofynodd am ddyfod i'r ty i orphwyso,
 Am rywbeth i dori ei syched oedd lym ;
 Wel dyna mewn rhan fu yr achos o'r gwrido,
 Ond rhaid fod peth arall mwy nerthol ei rym.

Pa beth ydoedd hwnw nis gallaf esbonio,
 Pa beth a'm trywanodd pan welais ei bryd,
 Nis gallaf ddywedyd, ac eto 'rwy'n teimlo,
 Pa beth yw y teimlad nis gwn yn y byd.

Rhaid imi ymysgwyd o'r teimlad dyeithrol,
 Ni thâl imi goledd teimladau o'r fath,
 Hwyl allant fod imi ryw ddydd yn ddinystrol,
 Am hynych gochelaf, rhag ofn y caf frath."

Mae Arthur yn ei fugail fwth
 Yn cysgu'r noswaith gyntaf,
 Ond nid yw'n cysgu nemawr chwaith,
 Mae'n effro y rhan amlaf ;
 Mae'n meddwl gormod am ei waith
 I allu cysgu 'n esmwyth,
 A phan yr huna breuddwyd ddaw,
 A'i deffry yn ddisymwth.

Cyfododd dranoeth gyda'r wawr,
 A'i feddwl yn drallodus ;
 Meddyliai lawer am y praidd,
 Meddyliai fwy am Gwladys ;
 'R oedd rhyw ymryson yn ei fryd
 Rhwng prudd-der a llawenydd ;
 Edrychai ar y praidd a'r wyn,
 Mor ddedwydd gyda'u gilydd.

Edrychai wed'yn arno'i hun,
 Fel mynach diymgeledd ;
 Nid oedd yn un a'i natur ef
 Fyw yn y fath unigedd ;
 Nid hyny'n unig ydoedd chwaith,

Elfenau 'i anghysuron,
 Ond Gwladys Morgan, brydferth fun,
 Oedd wedi dwyn ei galon.

Yr oedd mewn blinfyd tros ei ben
 O herwydd ei serchiadau,
 A methai wel'd ei ffordd yn glir
 I ddyfod o'i drallodau ;
 Yr ydoedd gwrthddrych hoff ei serch
 Yn ferch i wr boneddig,
 Ac yntau'n ddim ond llencyn tlawd
 O fugail i'r pendefig.

Cael cynllun i ddatguddio 'i serch,
 A dweyd ei deimlad wrthi,
 Oedd yn ei boeni ddydd a nos,
 Nes oedd yn mron gwirioni ;
 'R oedd uchder ei sefyllfa hi,
 Ac isder ei un yntau,
 Yn rhyw gagendor rhyngddynt hwy,
 Nes d'rysu 'i holl gynlluniau.

Pan ddaeth yn amser cneifio'r praidd,
 Ca'dd olwg arni eilwaith,
 A gwnaeth ei hoffus siriol wedd
 Ar Arthur ddyfnach effaith ;
 Hiraethai fwy o bryd i bryd
 Am gael ei gweled wed'yn ;

Wrth Natur yr adroddai'n syn,
Ei deimlad, fel y canlyn :

“ O ! pa fodd i gael ymwarded,
Beth all ddwyn i'm mynwes hedd !
A pha beth a fydd fy nhynged ?
Ofnaf mai y dystaw fedd ;
Ond er hyny ymwrrolaf,
Ac ymdrechaf tan fy loes,
Os ar ol y cwbl na lwyddaf,
Trallod fydd diweddglo f' oes.

Pwy, neu beth, a aiff yn genad,
Troswyf at y feinir lwys,
I ddweyd yn ei chlust fy nheimlad,
Adrodd iddi'm trallod dwys ;
A ai di, yr addfwyn awel,
A'm cyfrinach iddi hi ?
Dos, O ! dos, ac yna dychwel,
A'i hatebiad i fy nghri.

Da y gwyddost fy helyntion,
Maent yn hysbys iti oll ;
Traethais iti hwynt yn gyson,
Na ad iddynt fyn'd ar goll ;
Cipia bob ochenaid lwythog
Neidia o'm trallodus fron,

Paid a bod yn annhrugarog,
 ; Gwna'r gymwynas fechan hon.

Gyflym wenol, gwrando dithau,
 Aros, gwrando, wenol fwyn ;
 Dos at wrthddrych fy serchiadau,
 Traetha yn ei chlust fy nghwyn ;
 O ! na allwn, wenol dirion,
 Newid bywyd a thydi,
 Aethwn i wneyd nyth yn union
 O tan dô 'i hystafell hi.

Gwelaf nad yw o un dyben,
 Dweyd wrth Natur lân fy nghwyn,
 Ni wna'r gwynt ond gwawdus grechwen,
 Ni wna'r wenol gydymddwyn ;
 Ond mae genyf gynllun eto,
 Cyn y rhoddaf fyny'n llwyr ;
 Y mae'n bosibl gallaf lwyddo,
 Ond ymdrechu—pwy a wyr ?

Os yw'r gwynt yn was anufudd
 I'm harchiadau taerion i,
 Gwn yn awr am lythyr-gludydd
 Gymer fy nhrallodus gri,
 Ac a'i cipia trwy yr wybren,
 Bron mewn eiliad at y ferch ;

O'r meddylddrych 'rwyf yn llawen,
Y mae'n lleddfu gofid serch."

Ar neges fe aeth Arthur Llwyd
I'r orsaf ryw ddiwrnod,
A galwodd sylw Gwladys at
Ei phrydferth golomenod ;
A d'wedai am rinweddau un
A elwir llythyr-gludydd ;
Gwrandawai Gwladys arno'n syn
Yn d'weyd y rhyfedd newydd.

Dymunai Arthur gael rhoi prawf
Ar allu y golomen
Fel llythyr-gludydd trwy y nen ;
Ca'dd ganiatad yn llawen ;
'R oedd ganddi ar y pryd ddau gyw,
Aeth Llwyd ag un i'w ganlyn,
A chafodd fenthyg basged fach
I gario'r ddau aderyn.

Aeth Arthur tua'i fwth yn llon,
'N ol llwyddo yn ei amcan ;
Ond dwys fyfyrjai beth i'w ddweyd
Yn gyntaf wrth Miss Morgan ;
Y ffordd gymerodd i wneyd hyn
Oedd personoli'r g'lomen,

I draethu wrthi 'n drist ei gwyn,
A dweyd ei ddirfawr angen.

Yn foreu dranoeth gyda'r dydd,
Gollyngodd y golomen,
A llythyr bychan wedi 'i roi
Yn nghudd o tan ei haden ;
Esgynodd hithau fry i'r nen,
Fel saeth yn uchel, uchel ;
Yn chwim fel mellten hi a aeth,
I'r orsaf yn ddiogel.

Cyn codi, Gwladys glywai swm
Ei ch'lomen er ei syndod,
Fel pe'n rhoi darlith ar y daith
Yn nghlyw ei chyd-g'lomenod ;
Agorodd hithau gil y drws,
I'w denu i'w hystafell,
A chafodd y llinellau hyn,
Yn ddirgel tan ei hasgell.

“ Bum neithiwr, meistres, yn y llwyn,
Yn gwrando cwyn rhyw brydydd
Sydd yn gwastraffu cywir serch
Ar ferch na cha'n dragywydd ;
Nid yw efe ond llencyn tlawd,
A hithau 'n un o deulu ffawd.

Mae'r bugail yn dyrysu'n deg
 Am gusan ohweg y rhian ;
 Ond dyn a helpo 'i fron ddi-hedd,
 Ni fedd ef aur ac arian ;
 Am hyny ofna ofyn llaw
 Y feinir dlos, rhaid sefyll draw.

Am gyfoethogion, nid am feirdd,
 Y mae yr heirdd rianod ;
 Ynfyd-ddyn ydyw eiliwr cân,
 Yn ngolwg glân fenywod ;
 Gan hyny ofer yw i'r bardd
 Freuddwydio am y rhian hardd.

Y llencyn ydyw Arthur Llwyd,
 Sy'n gaeth yn rhwyd serchiadau ;
 Y mae'n drallodus nos a dydd,
 Ac felly bydd yn ddiâu ;
 Difrifol oedd ei wedd a syn,
 Ei gwyn adroddai 'n drist fel hyn :

' Gwyn ei fyd y dyn digariad,
 Sydd erioed heb deimlo serch,
 Heb un gronyn o dueddiad
 Yn ei fynwes at un ferch ;
 Un all edrych ar rianod
 Harddaf welodd dyn erioed,
 Heb amlygu unrhyw syndod,
 Mwy na phe baent lwyn o goed.

Dyma finau'n glaf o gariad,
 Bron a marw gan fy serch ;
 Anfesuro! yw fy nheimlad
 At un anghydmorol ferch ;
 Mae fy mynwes ar ymddryllio
 Gan fy mawr-serch ati hi ;
 Pe y'm hunid gyda hono,
 Byddwn ddedwydd, coelias fi.

Gwychder blodau tlysaf daear
 Wywa wrth brydferthwch hon ;
 Lili'r dyffryn, er mor hawddgar,
 A ddiflana ger ei bron ;
 Delw wan o'i grudd ysblenydd,
 Ydyw gwrid y rhosyn coch ;
 Swynol yw y fun ddieilydd,
 O ! na chawn gusanu 'i boch.

Môr didrai sydd yn fy mynwes
 O wir gariad ati hi ;
 Rian hawddgar, wen angyles,
 Gwywa'm heinioes gan fy nghri,
 Am gael hon yn gydmar bywyd,
 Nefol fywyd fyddai'n wir ;
 Os na chaf fy nwyn o'm blinfyd
 Byddaf farw cyn bo hir.' "

Hi chwaddai, gwridai, bob yn ail,
 Wrth edrych tros y nodyn ;

Ar ol ei ddarllen lawer gwaith,
 Bu raid ei ddarllen wed'yn,
 Nes oedd pob llinell ar ei chof,
 Ac ar ei chalon hefyd ;
 Yr oedd yn hoffi gwedd y llanc
 Mor bell o tan y clefyd.

Wel, mynaf roddi arno brawf,
 Medd Gwladys wrthi 'i hunan,
 Rhag ofn mai gweniaeth ydyw hyn,
 Yn gwisgo serch yn hugan ;
 Er chwilio'r cywir ni bydd gwaeth,
 Anfonaf ato'n union,
 Ychydig bach o dafod drwg,
 Er profi gwerth ei galon :

“Ai dyma y defnydd annheg a wnewch chwi
 A'm c'lomen, sef anfon eich ffalsedd i mi ?
 Mae gweniaeth yn gasach na dim yn y byd,
 A dyna oedd cynwys eich llythyr i gyd.

Os ydyw gormodiaeth i'w oddef mewn bardd,
 'Dyw gormod o weniaeth yn neb yn beth hardd;
 Ca'dd llawer, ysywaeth, o ferched teg wedd,
 Eu hudo trwy weniaeth nes disgyn i'r bedd.”

Edrychai Arthur tua'r nen
 Y diwrnod hwnw beunydd,

Gan ddysgwyl yn bryderus iawn
 Am wel'd y llythyr-gludydd ;
 Ond tua phedwar y prydawn,
 Hi ddaeth ar wib fel mellten ;
 Prysurodd Arthur i gael gwel'd
 Pa beth oedd tan ei haden.

Llawenydd, ofnau, bob yn ail,
 A redent tros ei galon ;
 Ni bu mewn pryder mwy erioed,
 Na'r hwn mae ynddo'r awrhon ;
 Pan ddaeth o hyd i'r llythyr bach,
 A gweled ynddo'i dynged,
 Bu agos a llesmeirio 'n gorph,
 Fe aeth mor wyn a'r pared.

“ Os arferais ormod hyfdra
 Arnoch, O! maddeuwch im',
 Credwch, nid oedd gradd o ffalsder
 Yn fy ngeiriau, nac oedd ddim ;
 Ond fy nidwyll deimlad atoch,
 Yn ddi-weniaeth oeddynt hwy,
 Byth ni flinaf mwy mo honoch,
 Os rhaid marw tan fy nghlwy'.

Gwywo wnaeth fy holl obeithion,
 O flaen hyrddiol ruthr-wynt croes,
 Y mae'r cleddyf tan fy nwyfron

Ddyry imi farwol loes ;
Marw, ie, marw'n fuan,
Dyna fydd fy nhynged erch,
Nid oes gysur im' yn unman,
Byddaf farw'n ferthyr serch."

Yr ydoedd, druan, erbyn hyn
A'i ofid bron a'i lethu,
Pob gobaith wedi cilio'n llwyr,
A theimlai fel ar drengu ;
Ond, druan, daeth y g'lomen fach,
Fel pe yn falch o'i neges,
A balm o tan ei hadn dlos,
I wella 'i glwyfus fynwes.

"Wel, ffoed eich tristwch mwy,
I'ch calon na foed clwy'
O'm hachos i ;
Nid peri i chwi gur,
Wnaeth imi fod mor sur,
Ond er cael gwel'd ai pur
Eich cariad chwi.

'R wyf wedi'm synu'n lân,
Eich bod mor drist eich cân
Am danaf fi ;
Son am eich tynged erch,

Sef marw'n ferthyr serch,
 O achos yr un ferch,
 Mae'n ffol eich cri.

Os yw'ch hapusrwydd chwi
 Yn crogi wrthyf fi,
 Na fyddwch brudd ;
 Iachaed eich clwyfus fron,
 A boed eich gwedd yn llon,
 Na wthied gofid don,
 Mwy tros eich grudd."

Mae calon Arthur Llwyd yn awr
 Yn orlawn o lawenydd,
 Mae'n wylo, chwerthin, bob yn ail,
 Mae unwaith eto'n ddedwydd ;
 Mae'r awgrymiadol lythyr bach
 Anfonodd Gwladys Morgan,
 Yn werthfawrocach ganddo ef
 Na threfedigaeth gyfan.

" Bu'ch llythyr diweddaf yn foddion i'm cipio,
 Pan oeddwn ar ddisgyn gan drallod i'r bedd ;
 Os bu yr un cyntaf fel cleddyf i'm clwyfo,
 Mae hwn megys olew yn archoll y cledd.

Tra byddo y fynwes tan lwyth o helbulon,
 Nis gall y wynebpryd ymddangos yn llon,

Mae'ch swynol ymddygiad yn denu fy nghalon
I draethu'r gyfrinach sy'n chwyddo fy mron.

Pan gyntaf y gwelais eich siriol wynebpryd,
Dychlamodd fy nghalon a gwridodd fy
ngrudd ;

Byth wedy'n fy mynwes sy'n orlawn o gariad,
Ond cariad i'm gwneuthur hyd yma yn brudd.

A gaiff fy mhrudd gariad ei droi yn llawenydd,
A gaf fi yn wylaidd ddymuno eich serch ?
Os bydd i chwi wrthod, ni wnaif yn dragywydd
Un ymgais i enill serchiadau un ferch.

Mae'n rhyfyg ynwyf ofyn hyn,
Addefaf hyny'n union,
Ond nid am wddf eich cyfoeth mae
Fy serch a'i freichiau'n dynion ;
Pe cym'rai hwnw edyn chwim,
A'ch gadael yn newynog,
Fy serch ymaflai'n dynach fyth
O gylch ei wrthdrych serchog."

"Diolch i chwi am ddatguddio
Eich cyfrinach im' mor hael,
Peth fum ganwaith yn ddymuno
Yn bryderus cyn ei gael ;
Pe'r adroddwn inau'r teimlad

Sydd o tan fy nwyfron i,
 Byddai megys ail argraffiad
 O serchiadau'ch mynwes chwi.

Peidiwch ag ymesgusodi,
 Beth wyf fi yn well na chwi ?
 Nid yw cyfoeth, mwy na thlodi,
 Ynddo'i hun yn wrthddrych bri ;
 Rhaid cael rhywbeth gwerthfawrocach,
 Rhywbeth gwell na glendid pryd,
 Synwyr sydd yn fil rhagorach
 Na holl olud mawrion byd."

Wel, bellach y mae Arthur bron
 Yn wallgof gan lawenydd,
 A chreda nad oes yn y byd
 Un dyn mor berffaith ddedwydd ;
 Fod meddu serch fath rian dlos
 Y meddiant gwerthfawroca',
 Yn fil o weithiau mwy ei werth
 Na gorsedd wen Victoria.

Mae'n canu yn ei fugail fwth
 Mor ddedwydd a thywysog ;
 Dedwyddach, o ran hyny, yw
 Nag unrhyw ben coronog ;
 Mae'r cwn yn synu beth sy'n bod,
 Ond unant yn y cydgan,

Maent fel yn teimlo fod rhyw swyn
Yn enw Gwladys Morgan.

“Gwyn fy myd pe byddwn heno
Lle mae'm calon yn dymuno,
Nid yn Nghymru, nid yn unman,
Ond yn nghwmni Gwladys Morgan.

Gwelais lawer o rianod
A'u prydfferthwch yn rhyfeddod,
Ond corphorwyd tlysni anian
Oll yn mherson Gwladys Morgan.

Pe bawn heno yn newynog,
A chael cynyg gwledd tywysog,
Cynt dewiswn gael rhoi cusan
Ar bêr wefus Gwladys Morgan.

Rhodddwn fyd pe yn fy meddiant,
Rhodddwn, rhodddwn fydoedd drichant,
A'r rhai hyny'n aur ac arian,
Am gael meddu Gwladys Morgan.

Er a dd'wedais o'm teimladau,
Ni fynegwyd hwynt i gyd;
Na, nid digon sydd o eiriau
Yn holl eiriaduron byd,
I ddarlunio môr diderfyn
A didrai y fynwes hon;

Pe'u defnyddid byddai wedy'n
Fwy yn aros tan fy mron.

O, na ddeuai'r adeg ddedwydd
Im' gael eto wel'd eich gwedd ;
Hoffwn iddi ddod yn ebrwydd,
I gael sylweddoli'm hedd ;
Nid yn unig gwel'd eich person,
Cael eich cwmni, dyna gwyd
Y serchiadau tros ymylon
Calon orlawn Arthur Llwyd."

Aeth y garwriaeth yn y blaen
Am fisoedd yn llwyddianus,
Ond i Llewelyn Morgan daeth
Y peth ryw ddydd yn hysbys ;
Pan aeth ryw foreu at y drws,
Fe ganfu y golomen,
A llythyr bychan Arthur Llwyd
Yn hongian wrth ei haden.

Ar ol ei agor, a chael gwel'd
Pa beth oedd yn ei gynwys,
Ac ar ol synu uwch ei ben,
Cyflwynodd ef i Gwladys,
A gwenai arni wrth ei roi,
A gwridai hithau druan,

Ond wrth wel'd siriol wên ei thad,
 Fe wylodd Gwladys Morgan.

Ymollwng wnaeth i freichiau 'i thad,
 Ac erfyn arno faddeu,
 A d'wedodd wrtho'r helynt oll,
 Yn nghanol ffrwd o ddagrau.
 "Paham yr wylwch, anwyl ferch?"
 Medd yntau yn dosturiol,
 "Nid rhaid i chwi ddim ofni'm gwg
 Am garu'r llencyn doniol.

Dywedaf i chwi beth a wnaf,
 Caiff fod yn arolygydd;
 A dweyd y gwir, 'rwyf fi fy hun
 Yn hynod hoff o'r prydydd;
 Mae'r llanc a digon yn ei ben,
 Pa beth sydd werthfawrocach?
 Ond na wybydded undyn byw
 Rai misoedd, eich cyfrinach."

Gwrandawai Gwladys ar ei thad,
 A golwg hynod wylaidd,
 A rhedai ambell ddeigryn glân
 I lawr ei grudd borfforaidd;
 Eib breichiau roddodd am ei wddf,
 A'i gwyneb ar ei wyneb,

'R oedd hyny iddo'n daliad llawn
Am y fath ddoeth diriondeb.

Yn mhen pymthegnos gwelid Llwyd
Ar gefn ei farch gwineuddu ;
Dyrchafwyd ef fel Joseph gynt,
A phawb oedd yn ei garu ;
Yr oedd hawddgarwch Mr. Llwyd
Yn synu'r holl ardalwyr,
A'i glod oedd uwch na neb o'i flaen
Yn ngolwg pawb o'r gweithwyr.

Ond ar ryw ddiwrnod hafaidd clir,
Mewn mawredd anrhydeddus,
Fe unwyd Arthur Llwyd a'i fun
Mewn glân briodas hapus ;
Edmygai pawb y ddedwydd ddau,
Ond rhai siomedig, druain,
'R oedd llon-floeddiadau trwy y fro,
Nes oedd yn diaspedain.

Aeth heibio y llawenydd hwn,
Yr holl "lwc dda" a'r twrw ;
Y mae holl fwyniant ambell rai
Yn darfod y pryd hwnw ;
Ond nid oedd hwn ond ernes fach,
I Arthur Llwyd a'i briod,

O herwydd buont hwy ar hyd
Eu hoes yn ddedwydd hynod.

Yn mhen y flwyddyn wedi hyn,
Fe gaed etifedd bychan,
Er mawr lawenydd iddynt hwy,
Ac i Llewelyn Morgan ;
A galwyd yr un bychan tlws
Ar enw 'i daid, Llewelyn,
Ac er mor ddedwydd oeddynt cynt,
Dedwyddach oeddynt wed'yn.

Er mor ddifyrus fyddai son
Am fwyniant teulu dedwydd,
Rhaid imi bellach roddi'r gerdd
O'r neilldu, fwyn ddarllenydd,
Rhag ofn y crwydrwn yn rhy bell
O gym'dogaethau'r testyn,
Ac heblaw hyny mae'n llawn bryd
I roddi arni derfyn.

Y DEYRNAS LYSIEUOL.

[DYFYNIADAU O BRYDDEST.]

Ofnadwy ryfedd ydyw meddwl dyn,
A'i allu mawr anfeidrol mesur wna
Y lloer, yr haul, a'r holl blanedau pell,

A threiddio wna trwy greigiau'r ddaear hon
 I gelloedd dyfnaf doeth weithredoedd Ior,
 Yn nhrefniad natur a'i holl ddeddfau pur ;
 Mae'r ddaear megys cyfrol yn ei law,
 Yn traethu am Greawdwr doeth a da.
 Un o ddalenau cyfrol natur gaiff
 Ei darllen genym yn y ganiad hon.

Y testyn aruchel a hynod ddyddorol
 Sydd genym i'w drafod yw'r Deyrnas Lysieuol;
 O na byddai genym wych ddoniau archangel,
 I ganu yn deilwng ar bwnc mor aruchel ;
 Mae hyd yn nod enwi y nifer aruthrol
 Sydd o rywogaethau 'n y Deyrnas Lysieuol,
 A hefyd fyr-nodi 'r gwahanol ansoddau
 A berthyn i'r cyfan, a'u priodoledau,
 Yn orchwyl anfeidrol uwchlaw ein galluoedd,
 A'n hoes yn rhy fyr i'r fath ddirfawr weith-
 redoedd ;

Gan hyny ni wnawn ond rhyw redeg yn frysio
 Tros ranau neillduol o'r deyrnas fawreddog.

Mae'n hysbys i bawb a fyn wybod, yn ddiau,
 Fod pobpeth sy'n tyfu o'r ddaear yn llyisiau ;
 Ond dichon nad yw y rhan fwyaf yn gwybod
 Fod llyisiau yn tyfu ar leoedd mor hynod
 A cheryg, priddfeini, ar wydrau, ac eira,
 Ac ar fath o wybed rhyw llyisiau flagura.

Mae eisoes yn hysbys o lysiau gwahanol,
 Medd rhai naturiaethwyr, y nifer aruthrol
 O gan' mil neu ragor, ac eto mae'n debyg
 Fod miloedd ar filoedd mewn gwledydd pell-
 enig,
 Na wyr y gwyr hyny, er maint eu cywrein-
 rwydd,
 Un gronyn am danynt, mwy na'r anghyfar-
 wydd.
 Nid mewn lluosogrwydd mae'r cyfan o'u
 mawredd,
 Ond priodoledau pob un sydd yn rhyfedd ;
 Canfyddir doethineb Creawdwr anfeidrol
 Yn llunio a threfnu y Deyrnas Lysieuol.
 Awn bellach ar wibdaith i lawr i ororau
 Gwaelodion y deyrnas, ond nid heb chwydd-
 wydrau,
 Ac yno ar derfyn diddymdra cawn weled,
 Yn mhobman o'n hamgylch fân-lysiau'n afrifed,
 A'r oll mewn cydgordiad â deddfau sefydlog,
 Yn datgan doethineb y Duw Hollalluog.
 Rhy bwl yw ein deall, rhy fyr yw'n hamgyffred
 I wel'd defnyddioldeb y doraeth afrifed
 O lysiau gorfychain trwy'r chwydd-wydr gan-
 fyddir,
 Er hyny cywreinrwydd Duw natur amlygir.
 Pwy wyr nad oes miloedd o fân greaduriaid

Yn byw ar y llysiau, na welir & llygaid ?
 Mae'n rhaid fod rhyw amcan a dyben neillduol
 I bobpeth a greodd y Duw hollwybodol.

Wel, bellach rhaid ini droi heibio'n chwydd-
 wydrau,
 Rhag cael ein llwyr dd'rysu â'r fath ryfedd-
 odau ;

Wrth geisio darlunio gwrthddrychau mor hy-
 nod,

Mae iaith yn diflanu, rhaid tewi mewn syndod.
 Rhaid troi ein gwynebau i fyny yn frysio,
 Heb gael ond cip-olwg ar feusydd toreithiog
 O lysiau a blodau, a myrdd o blanhigion,
 Nes dyfod i olwg coedwigoedd talgryfion,
 Y rhai sydd fel teulu breninol y deyrnas,
 Yn haeddol o barch, o anrhydedd ac urddas.
 Fan yma ceir gweled y pinwydd talfrigog,
 Yn tyfu'n unionsyth mewn gwycheder mawr-
 eddog ;

Y cedrwydd talgryfion, a'r derw urddasol,
 Hen goed bendigedig ein gwlad enedigol ;
 Yr olewydd gwerthfawr a'r gwinwydd rhag-
 orol,

Ac yma ceir hefyd y palmwydd iachaol ;
 Ond wele un eto, y mwyaf ei urddas
 O brenau y goedwig, a brenin y deyrnas,

Mae 'i olwg yn rhwysgfawr, mae'n goedwig ei hunan,

Y mwyaf ardderchog o'r prenau yw Banyan;*
 Ei gangau ymledol orchuddiant rai erwau,
 Breninbren y goedwig yw'r banyan yn ddiâu;
 Ar unwaith yn gorphwys o boethder yr hinon,
 Bu saith mil o filwyr o tan ei gysgodion;
 I fyny ar hyd ei ymledol gangenau
 Epaod a'n llonant wrth chwareu eu campau,
 A'r pluog gerddorion a'n swynant wrth ganu,
 A'r heirdd golomenod a'r paunod wna'n synu.
 Nid rhyfedd gan hyny fod rhai coelgrefyddol
 Yn rhoi i'r pren banyan eu parch addoliadol;
 Hindwaid ymgasglant i gynal eu gwyliau
 Arbenig o tan ei gysgodol gangenau;
 O herwydd ei briodoleddau tra hynod,
 Ystyrir ef yn arddangosiad o'r Duwdod.

O! 'r dirfawr wahaniaeth, mae bron yn anfeidrol,

Sydd rhwng dau eithafben y deyrnas lysieuol;
 Mae un gan fychander o'n blaen yn diflanu,
 A'r llall gan ei fawredd aruthrol wna'n synu;
 Mae un yn herfeiddio y chwydd-wydr ei hunan,
 A'r llall fel am hawlio y ddaear yn gyfan.
 Yn wir, galledd feddwl fod Duw'n ymbleseru

* Ni wyddai yr awdwr am goed mawr California ac Australia pan yn cyfansoddi yr uchod, 1864.

Mewn gwneyd pethau rhyfedd o'n hamgylch
i'n synu.

Yn Neheu Amerig ceir llaeth o ryw brenau,
Ymenyn geir hefyd o ryw fath o lysiau.

Mae bron ein holl angen mewn ystyr dymorol
Yn cael ei ddiwallu trwy'r deyrnas lysieuol;
Ein hymborth a'n gwisgoedd, ein tai a'n tân
hefyd,

A'n meddyginiaethau pan fyddo afiechyd.

Hirddydd haf, ar ol noswylio,
Melus myned ambell waith,
Trwy'r feillionog ddol i rodio,
O, mor ddifyr yw'r fath daith,
Pan fo'r huan wrth fachludo
Yn goreuro bryniau ban,
A'r arianlloer yn gwyleiddio
Wrth ddyrchafu tua'r lan.

Cofio'r wyf un tro nodedig,
Ar ol caled waith y dydd,
Yr ymlwybrwn yn flinedig
Tua'r ddol a'm bron yn brudd;

. Gan fod y rhan fwyaf o'r bryddest hon yn y mesur diodl, a chan fod y nifer fwyaf o'n cenedl o'r un farn a'r diweddar hynod Talhaiarn am y mesur hwnw, sef mai barddoniaeth wedi ei *witchio* ydyw, ni ddyfynir ond ychydig o'r hyn sydd yn odli ynddi.

Er holl wychder y gorllewin,
Gan y gwawldywysog mawr,
'R oedd fy ngofid yn rhy erwin
Iddo gael fy mryd yn awr.

'R oedd y ddol fel llawrlen sidan
Amryliwiog dan fy nhraed,
Lawn o addurniadau purlan,
Rhai fel eira, lleill fel gwaed ;
Llwyr ymlidiwyd o fy meddwl
Fy nhrallodau oll yn nghyd—
Nid oedd gofid mwy na thristyd,
Teimlwn fel mewn arall fyd.

Ar ol myn'd ychydig rydau,
Gan sylldremu tua'r llawr,
Ymollyngais ar fy ngliniau,
Wedi'm llwyr-orchfygu'n awr,
Gan brydferthwch yr olygfa,
Torf o lygaid mân y dydd,
Fel yn ffurfio arddangosfa
I fy llon groesawu 'n rhydd.

Gwelwn fod yr oll yn syllu
Tua y gorllewin draw,
Fel pe buasent yn rhyfeddu
At ryw wrthddrych oedd gerllaw ;
Plygent oll eu penau'n foesgar,

Fel i gyfarch gwr o fri,
 'R oedd eu gwylaidd ddull yn hawddgar,
 Dysgent bwysig wers i mi.

Ar ol syllu a myfyrio,
 Uwch eu penau haner awr,
 Penderfynais mai ffarwelio
 'R oeddynt hwy â'u llywydd mawr,
 Mai cyflwyno'i diolch hwyrol
 I'w cynalydd oedd eu gwaith ;
 O, mor brydferth a gorswynol,
 Oedd eu hawgrymiadol iaith.

Aeth yr huan tros y gorwel,
 Plygent hwythau 'n nes i'r llawr,
 A dechreuent gau yn dawel
 Eu hamrantaau bach yn awr,
 Fel i gysgu esmwyth gyntun,
 Yn ddihidio am y lloer,
 Nid oedd un yn prisio gronyn
 Am ei gwan oleuni oer.

Codais dranoeth gyda'r wawrddydd
 Yn bryderus am fwynhad
 O brydferthion gorysblenydd
 Y teleidwych flodau mad ;
 'R oedd yr adar bach yn pyncio
 Yn berseiniol yn y llwyn ;

Nid arosais ddim i wrando
Ar eu melus odlau mwyn.

Braidd na syrthiais yn llesmeiriol,
Pan edrychais tua'r ardd ;
O, mor brydferth a dymunol
Ydoedd gwel'd y blodau hardd ;
'R oedd y gwllith fel perlau gloewon
Yn addurno dail pob pren,
A phob un o'r glaswellt meinion,
Crogai perlyn wrth ei ben.

Cysgu eto 'roedd y blodau,
Er a ganai cor y llwyn,
Gyda dagrau ar eu gruddiau,
Gwylaidd wylai'r blodau mwyn,
Megys plant amddifaid tlodion,
Ar ol colli mam a thad,
Pan yr wylent ddagrau heilltion,
Wrth adgofio'u cartref mad.

Pr ddol y cyfeiriais fy nghamrau,
I edrych am lygaid y dydd ;
Ond buan canfyddais eu dagrau
A chwsg heb eu gollwng yn rhydd ;
Dechreuai yr haul a thywynu
Ei hafaidd belydrau i lawr,

A gwenai y siriol friallu
Wrth wel'd ei wynebpryd yn awr.

Ond gwelwn yr huan trugarog,
Fel menyw fwyn serchog ei bron,
Yn sychu eu gruddiau gwlybyrog,
A'u hanog i edrych yn llon ;
Ar hyny siriolai'r holl lysiau,
Ar ol cael eu gruddiau yn sych,
Agorai a llonai'r holl flodau,
Yr oeddynt yn edrych yn wych.

'R oedd gwyneb y dolydd gwyrddleision
Fel gerddi Paradwys pryd hyn,
A'u mirain aneirif brydferthion
A wnelsent angelion yn syn ;
Mae'n rhaid mai Creawdwr anfeidrol,
A pherffaith haelionus rodd fod
I'r orwech hardd Deyrnas Lysieuol,
Hi ddatgan ei haeddol fawr glod.

Y llwyni oedd lawn o brydferthion,
Eu dail yn wyrddleision a theg,
Ar rai yr oedd blodau clærwynion,
Ar eraill rai cochion a chweg ;
'R oedd Natur fel hardd foneddiges,
Neu dduwies urddasol ei phryd,

A pherlau 'n addurno ei mynwes—
Yr oedd fel brenines y byd.

Y grug a addurnant y creigiau,
A'u blodau amryliw a mân,
A'r eithin sy'n euro'r llechweddau
A'u blodau melynion a glân ;
Mae natur yn hael o'i phrydferthion,
A'i thlysnï gorchuddia y byd ;
Mae'r cymoedd a'r bryniau yn llawnion
O flodau a meillion i gyd.

Cyfeiriais wed'yn tua'r ardd,
I wel'd ei hardd brydferthion,
Ac O ! mor swynol oedd ei drych,
Yn llawn o orwych geinion ;
Yr oedd yr huan erbyn hyn
Yn gwenu arni tros y bryn.

Rhyw nefoedd fach yn wir i fardd,
F'ai byw mewn gardd flodeuog,
Dedwyddach fyddai yn ddilen
Nag unrhyw ben coronog,
Fe ganai wed'yn yn ddidaw,
Nes cadw pob gofidiau draw.

Daeth natur a'i holl liwiau hardd,
I urddo gardd y blodau,

A phob prydfferthwch yn y byd
 Rydd yma'n nghyd, yn ddiâu ;
 Wel, dyma yw Paradwys bardd,
 Sylldrema mewn blodeuog ardd.

Mor siriol oedd y blodau ter,
 A'u harogl pêr a'm llonent,
 Y diwyd wenyn oedd yn hel
 Y mel, a llon chwareuent
 Ar hyd mynwesau'r blodau mân,
 Gan suo eu perseiniol gân.

O gylch y deildy'n nghongl yr ardd,
 Rhosynau hardd a gwridog
 A'm llon-gyfarchent gyda swyn
 Eu hagwedd fwyn a serchog ;
 Fe ganwyd am brydfferthwch cun
 Y rhosyn coch gan lawer un.

A phwy na chanai bwt o gân
 I frenin glân y blodau ?
 Mae pawb yn caru'r rhosyn prid
 O herwydd gwrid ei ruddiau ;
 A phawb ddymunai wel'd ei foch
 Yn wridog fel y rhosyn coch.

A hithau, 'r hawddgar lili lân,
 A haeddai gân gan brydydd,

Nid oes gyffelyb iddi hi
 O ran ei bri ysplenydd ;
 Y brenin gwychaf fu tan nen,
 Mil harddach oedd y lili wen.

Mae pob blodeuyn arno'i hun,
 Yn fyd o gryn bwysigrwydd,
 Ac arno fyrdd o fodau mân,
 Yn byw yn ddyddan ddedwydd,
 Yn treulio'u hoes mewn llon fwynhad,
 Erioed heb dori deddf eu Tad.

 TUCHANGERDD.*

Y LLEN-LEIDE.

Mae lladron lawer iawn heblaw
 Rhai Deheu Cymru Newydd ;†
 Nid oes gym'dogaeth yn y byd
 Yn berffaith mewn gonestrwydd ;
 Ac wrth ladrata y mae rhai
 Yn myn'd yn ddynion enwog ;
 Dywedai 'nhaid fod lladron oll
 Yn meddu dwylaw blewog.

 * Cyfansoddwyd y gerdd hon yn Australia yn 1866.

 † Cyfeirir yma at *Bushrangers New South Wales*, lla dron beiddgar fel y *James brothers, &c.*, yn y wlad hon.

Nid wyf am son yn hyn o gerdd
 Am ladron ieir a gwyddau,*
 Nac am rai sydd mor hyf a dwyn
 Ein harian o'n llogellau ;
 O herwydd nid hedd-geidwad wyf,
 I wylio'r tylwyth yma,
 Ond tuchan-ganu yw fy ngwaith,
 I un am len-ladrata.

Wel, enw arwr hyn o gerdd
 Yw Twm Llewelyn Dafydd ;
 Yr oedd ffug-enw ganddo ef—
 Nid ydyw hyn ddim newydd ;
 O herwydd mae rhai enwog iawn
 Fel lladron a llenorion,
 Yn arddel rhyw ffug-enw, fel
 Y gwyddoch oll, gyfeillion.

Chwenycha llawer fod yn fawr
 Sydd heb elfenau *prifio*,
 A cheisiant ffugio mawredd trwy
 Dorsythu ac ymchwyddo ;
 'R oedd urddasolrwydd Twm i gyd,
 Mewn bod yn syth a gwyntog ;
 I fryn enwogrwydd ceisiodd fyn'd
 Trwy rym ei ddwylaw blewog.

* Y chwiw-ladron Chineaid.

Fe deimlai awydd mawr am wel'd
 Ei enw'n argraffedig,
 A thybiai gwnelai hyny ef
 Yn berffaith wynfydedig ;
 Er cyrhaedd unrhyw safle wych,
 Rhy ysgafn oedd ei benglog,
 Ond mynych geisio dringo wnai
 Trwy nerth ei ddwylaw blewog.

Iŷfod yn fyr, fel hyn y bu,
 Anfonodd i fisolyn
 Ryw ddarn oedd wedi dod o'r blaen
 Trwy'r wasg er's llawer blwyddyn ;
 Aŷchan nad ydoedd Mr. Gol.,
 Yn berffaith hollwybodol,
 Yn ffodus dymuniadau Twm
 Gyflawnwyd yn llyth'renol.

Bu'n cnoi ei gil am dymor maith
 Ar damaid mor ddanteithiol,
 Sef gwel'd ei enw hoff mewn print,
 Edrychai arno'n ddoniol ;
 Ond ni foddlonodd ef ar hyn,
 Daeth ysfa arno wed'yn
 I geisio dringo'n uwch i'r bryn
 Ar gefn rhyw hen fisolyn.

'R oedd traethawd da yn hwnw ar
 " Ddiwydrwydd a Darbodaeth,"

Ac yn ei ardal rhoddwyd hwn
 Yn destyn cystadleuaeth ;
 Er dirfawr syndod, "Llew ab Llew"
 Gyhoeddwyd yn fuddugol ;
 Nid oedd y Beirniad, mwy na'r Gol.,
 Wrth gwrs, yn hollwybodol.

Aeth Twm yn syth i geisio'r wobr,
 Gan edrych yn chwyddedig,
 Tra gwelid eraill yn y dorf
 Yn gwisgo gwedd siomedig ;
 Ac un o honynt fethai ddal
 Yn brin i fyned allan,
 Ac meddai'n ffraeth, "Beth, Llew ab Llew,
 Na, Llo ab Buwch, yw'r lleban."

Un arall dd'wedai, "Ar fy ngair,
 Os gwnaeth e'r traethawd yna,
 'R wy'n foddlon i ymrwymo'n awr
 I fwyta'r Eifl a'r Wyddfa ;"
 "Wel yfaf finau'r môr bob dafn
 Fy hunan," meddai'r trydydd,
 "Os cyfansoddwyd y fath beth
 Gan Twm Llewelyn Dafydd."

Ni bu dadleuon gwedi barn,
 Erioed o'r blaen mor wresog ;
 O'r diwedd caed fod "Llew ab Llew"

Yn meddu palfau blewog ;
 Y traethawd gafwyd air am air,
 Mewn hen gyhoeddiad misol—
 Y bechgyn dybient rhoddai hyn
 Ar Twmi daw trag'wyddol.

Peth anhawdd iawn, medd dynion doeth,
 Yw tynu *cast* o asyn ;
 Lladrata fynai Twm o hyd,
 Er holl ffonodiau'r bechgyn ;
 Daeth arno awydd cryf tros ben
 Am fod yn fardd godidog,
 A cheisiodd dwyllo'r wlad ei fod,
 Trwy waith ei ddwylaw blewog.

Mewn cystadleuaeth yn y Cwn,
 'R oedd pryddest ar y "Gwanwyn,"
 A d'wedai Twm wrth hwn a'r llall,
 Ei fod yn hoffi'r testyn ;
 A mynych gwelid ef yn myn'd
 At ffrwd gerllaw rhyw bont-bren,
 Wrth hyn meddyliai rhai ei fod
 Yn un o blant Ceridwen.

A thybient hefyd ar ei wedd,
 Ei fod yn fardd rhagorol,
 O herwydd ni bu bardd erioed
 Yn edrych mor wirionffol.

Gallesid meddwl fod ei ben
 Yn nythle drychfeddyliau,
 Ond nid oedd ynddo wedi'r oll,
 Ond gweigion ystafellau.

Aeth son ar led, waeth hyn na mwy,
 Fod "Llew ab Llew" yn brydydd,
 Ac wrth y merched d'wedai 'i fam
 Chwedleugar, Pegi Dafydd,
 Fod ganddo bryddest dda tros ben
 Yn barod ar y "Gwanwyn,"
 Yn ol pob tebyg mai efe
 Enillai ar y testyn.

'R oedd beirdd y cwm, yn wael a gwych,
 Yn cynyg yn egniol,
 Ond er eu gwaethaf, "Llew ab Llew"
 Ddyfarnwyd yn fuddugol ;
 A Thwm edrychai 'n farddol iawn
 Pan gafodd ei wobrwyo,
 Ond dymunasai rhai o'r beirdd
 Gael rhoddi cernod iddo.

Os bu'r traethodwyr wrtho'n llym,
 Bu'r beirdd yn llawer llymach ;
 Buasai'n well i Twmi bach
 Ymgadw o'u cyfrinach ;
 Bu agos i'w henglynion ffraeth

A dryllio 'i galed galon ;
 Nid oedd i'w aros mewn un man
 Ond saethau gwawd-ganeuon.

Yn euog eto profwyd ef
 O feiddgar len-ladrata,
 A phrofwyd nad oedd gan y gwalch
 Ddim awen mwy nag epa.
 Er pob triniaethau myn'd yn waeth
 Wnai'r diegwyddor adyn,
 Trwy anfad waith y cafodd ef
 Y bryddest ar y " Gwanwyn."

Ei hawdwr ydoedd unig fab
 Rhyw wraig dylawd a gweddw,
 Yr hwn oedd fardd rhagorol iawn,
 Ond Ow! 'roedd wedi marw ;
 A Thwm aeth at y weddw dlawd
 I ffugio cydymdeimlad,
 Ond bychan wyddai hono am
 Ei felldigedig fwriad.

Canmolai lyfrgell hardd ei mab,
 Edmygai ei dalentau,
 A d'wedai y carasai'n fawr
 Gael benthyg ei ysgrifau ;
 Yn ewyllysgar cafodd hwy,
 Ac yn eu plith y " Gwanwyn"—

Byth ni ddychwelwyd hono gan
Y brwnt ellyllaidd adyn.

Fe syrthiodd Twmi ar ol hyn
Tan warthrudd a dinodedd,
Ac yn ei ardal pawb mewn gwawd
Oedd ato'n estyn bysedd ;
Os medrodd ddianc heb ei ddwyn
Tan rwymau cyfraith wladol,
Cywilydd a'i hymliododd ef
O'i ardal enedigol.

Ei amcan trwy ei anfad waith
Oedd esgyn bryn enwogrwydd,
Ond yn lle hyny disgyn wnaeth
I ddyffryn du gwaradwydd ;
Ac yno atgas enw Twm
O tan ei warth a bydra ;
Oddiwrth ei hanes dysgwn wers,
Sef peidio llen-ladrata.

I RWGNACHWYR CERDDOROL

AR OL EISTEDDFOD.

Ffraeo a chwyno wnewch chwi—O !'r cythrudd,
Ai'r cythraul aeth ichwi ?
O ! trowch eich dawn yn llawn lli',
Wir fulod, i wâr foli.

Y LLIFEIRIANT.

O! beth sydd ar ddyfod? mae'r wybren yn duo,
Mae fel pe yn nosi yn gynar brydnawn;
Ust! ust! dyna daran ofnadwy'n crochruo,
Rhyw dymestl ddychrynlyd yn fuan a gawn;
Mae natur yn gruddfenn gan wewyr arswydus,
Mae bron myn'd yn gandryll gan ofid a gwŷn;
Y mae ei dychrynlyd och'neidiau echrydus
Yn ddigon i welwi yr annuw ei hun.

Ond Ah! dyma'r dagrau'n dod lawr yn llif-
eiriol,

Fel gwylltion raiadrau o'r nefoedd i lawr,
Cynyddant, ymruthrant, yn ffrydiau aruthrol,
Y trystfawr ruddfanau a beidiant yn awr;
Y nentydd ysgubant i lawr o'r mynyddoedd,
Gan dyrfu'n ddychrynlyd rhwng danedd y
graig,

A'r mawrion afonydd ymchwyddant fel mor-
oedd,

A chlodant eu pontydd i ganol yr aig.

Mae crochlef frawychus y rhuthrawg lifeiriant

Yn adsain trwy'r ardal eu dychryn a braw,
I'r ofnus drigolion y rhai a lesmeiriant

Wrth wel'd y rhyferthwy ofnadwy gerllaw!
Coed mawrion ysgubir fel brychau i'r weilgi,

A'r gwartheg o'r dolydd a gipir bob pen,
 Mae'r dyffryn fel culfor, a'i lanw 'n ymgodi,
 A'i donau ffyrnigwyllt a neidiant i'r nen.

Yr haul a fachludodd, daeth dudew dywyll-
 wch,

Fel pruddaidd alarwisg tros natur yn awr;
 Chwibana yr awel alargan lawn tristwch,

Hiraetha pob wyneb am weled y wawr;
 Ond Och! dyna gynhwrf yn ngwaelod y
 dreflan,

Cymysgir gruddfanau â chrochwaedd y lli';
 Ymruthrai'r cym'dogion yn frysiog o bobman,
 Mewn dychryn i'r man lle dyrchafa y cri!

Wrth oleu llusernau, er syndod canfyddir
 Y crychwyn lifeiriant o amgylch rhyw dŷ;
 Gruddfanau truenus o hono a glywir,
 Nis gellir myn'd ato, mae'r dwfr yn rhy gry'.
 Ow! Ow! dacw'r fam ag un bach yn ei
 breichiau,

Yn neidio trwy'r ffenestr i ganol y lli',
 A'r tad dychrynedig rydd naid ar eu holau,
 Y creulawn lifeiriant chwyrn-gipia y tri!

Pa le mae'r plant eraill? Ust! clywch eu do-
 lefau,
 Maent bron a gwallgofi—mae'r tŷ'n dod i
 lawr!

Y mae yn gogwyddo—cyflawnir eu hofnau—
 Mae'n syrthio ! mae'n syrthio ! mae'n syrthio
 yn awr !

Ac ymgynddeirioga'r llifeiriant dychrynlyd,
 Nes hollol chwilfriwio y muriau i gyd,
 Mae fel pe yn ofni i'r un gael ei fywyd,
 Myn hyrddio y cyfan ar unwaith o'r byd !

Ofnadwy lifeiriant ! y swm a ysgubaist
 O gynyrch dyffrynoedd i eigion y môr,
 A'r lluoedd aneirif o ddynion drosglwyddaist
 Yn hollol ddirybudd i wyddfod yr Ior ;
 A llawer gwraig dirion ysbeiliaist o'i phriod,
 Amddifaid o'th herwydd a'u dagrau sy'n llif,
 "Hen elyn dynoliaeth" y rhaid dy gydnabod,
 Dir-rwygaist yn greulawn deimladau dirif.

Mae darllen dy hanes, yspeilydd gorwancus,
 Yn ddigon brawychus i fferu ein gwaed ;
 Dinasoedd ysplenydd a'u gwycheder mawr-
 eddog,
 Trwy rym dy ryferthwy'n garneddau a gaed ;
 A'r truain drigolion yn nerth dy gynddaredd,
 A gleddaist yn nghanol malurion eu tai ;
 Ein gweddi fo beunydd ar Dduw pob tru-
 garedd,
 Ein cadw o'th afael er cymaint ein bai.

Y DIFFYG AR YR HAUL,

AWST 18, 1868.

Urddasol deyrn yr wybren,
 Pa beth sydd ar dy rudd ?
 O herwydd cleisio'th wyneb
 Mae natur drwyddi 'n brudd ;
 A'r lloer sydd am d' ysbeilio,
 Neu frwnt bardduo'th wedd ;
 A ydyw'n teimlo awydd
 Am draws-feddianu'th sedd ?

Mae anian am dy guddio
 Yn llwyr o wydd y byd
 A thewion fentyll duon,
 Neu am dy gadw 'n glyd ;
 Mae miloedd yn bryderus
 Am wel'd dy wyneb gwiw,
 A'u gwydrau yn eu dwylaw
 Er tremio ar dy friw.

Cip-olwg geir ar droion
 Trwy garpiog hwyliau'r nen,
 A phawb a ddyfal wylant
 Bob rhwygiad yn y llen ;
 Ha ! huan gogoneddus,
 Wyt eto ar dy sedd,

Yn llywodraethu'r bydoedd
Heb dduwch ar dy wedd.

'D oedd hyn ond cysgod egwan
Y nos-frenines wen
Yn cuddio rhan o'th odrau,
Wrth ymdaith trwy y nen ;
Bu lawer gwaith cyn yma
Cydrhyngot ti a'n byd,
Ond nid oes ol ei chysgod
I'w weled ar dy bryd.

Ti fuost, lygad anian,
Yn dyst o bethau syn,
Ond methaist ddal yr olwg
Ar ben Calfaria fryn ;
Pan oedd y Duw anfeidrol,
Dy Grewr, ar y groes,
Ti gauaist dy amrantau
Rhag gwel'd anfeidrol loes.

Do, buost mewn du lewyg,
A phoen am deirawr lawn,
A'th wedd mor ddu a'r glöyn,
Y byth-gofiadwy nawn,
Pan ydoedd Haul cyfiawnder
Tan ddiffyg gwyneb Duw,
A Brenin nef yn marw
I farwol ddyn gael byw.

Y BEDD UNIGOL.*

Mor ddifyr ydyw rhodio
 Yr anial goedwig werdd,
 Fy nghalon hollol swynir
 Wrth wrando melus gerdd
 Cerddorion anwyl anian,
 A'u bronau bach difrad,
 Yn moli'n orfoleddus
 Eu tra haelionus Dad.

Hir-gulion ddail y prenau†
 O flaen yr awel fwyn,
 Sydd fel yn nwyfus ddawnsio
 I'w cyngan lawn o swyn;
 Ond Ah! fy mron drywenir,
 Fel pe gan finiog gledd;
 O tan fy nhroed canfyddaf
 Ryw lwm unigol fedd!

Yr unig beth a ddengys
 Mai beddrod yw efe,
 Yw darn o bren diaddurn,
 Ac arno M. ac E.;

* Mae yn Australia, fel yn y wlad hon, lawer "bedd unigol" y bydd ei hanes yn ddirgelwch hollol hyd foren y dydd mawr.

† "Hir-gulion" yw ffurf dail y coed yn Australia. Maent o dair i naw neu ddeg modfedd o hyd, ac o haner modfedd i fodfedd o led.

Ond Ow ! pwy roddwyd yma
I huno'n wael ei wedd ?
Ai tŷ hir gartref Cymro
Yw yr unigol fedd ?

Ai dyn heb berthynasau,
Na hoff gyfeillion chwaith,
Sy'n gorwedd yma'i hunan,
Er's llawer blwyddyn faith ?
Ni welir ôl galarwyr
Yn dyfod trwy y coed,
Y llanerch sydd mor hollol
Anhygyrch ag erioed.

Ow ! Ow ! y bedd unigol,
A gauwyd di ryw ddydd,
Ar gorph fy nghyd-greadur,
Heb neb a'i fron yn brudd ?
Ai nid oedd mam alarus
Yn wyllo dagrau'n lli',
Neu briod dor-calonus,
A'i phrudd gwynfanus gri ?

Ai nid oedd câr na chyfaill,
Yn ocheneidio'n ddwys,
Wrth wel'd ei rod-di yma
I orwedd tan y gwys ?
Ai ni fu neb hiraethus

Yn wylu ar ei ol,
 Er pan y rhoed ef, druan,
 I orwedd yn dy gôl ?

Na, na, mae pob arwyddion
 Yn ateb yn eu hiaith,
 Na wyddost ddim am brudd-der,
 Na welaist ruddiau llaith ;
 Na chlywaist brudd ochenaid,
 Na thrist alaethus lef
 Yn agos i'th gyffiniau
 Er pan dderbyniaist ef.

Ai'r anwyl Meirig Edward
 A gollwyd flwyddau'n ol,
 Y pruddaidd fedd unigol,
 Sydd yn dy oeraidd gôl ?
 Yn wir, pe gwyddwn hyny,
 Mai ef sydd tan dy len,
 Rho'wn arno well cofadail
 Na'r gwael diaddurn bren.

Hen amlen llythyr welaf,
 Fe ddichon y rhydd hon
 Ryw derfyn ar y pryder
 Sy'n chwyddo'm elwyfus fron ;
 Och ! gwywa fy ngewynau,
 A syrth yr amlen, am

Fod enw Meirig arni,
'Sgrifenwyd gan ei fam !

Mae hono'n awr gan hiraeth,
Ar ol ei Meirig cu,
Yn araf rodio dyffryn
Yr hen Iorddonen ddu ;
Yn llwch y bedd bydd hithau
Cyn hir, yn wael ei gwedd,
Heb wybod fod ei Meirig
Mewn tlawd unigol fedd.

Er na fu neb o'i geraint
Yn wylo yma'n brudd,
Er hyny collir dagrau
O'i herwydd nos a dydd ;
Mae angau wedi nodi
Ei dad a'i fam i'w gledd,
Ac Ow ! mae un a'i carai,
Er's blwyddyn yn ei bedd.

Pa beth, Ow ! beth a'th ddygodd,
Fy anwyl Feirig gu,
I'r anial fedd unigol—
Pwy ddywed modd y bu ?
O, na bae dail y goedwig
'N dafodau ffraeth i gyd,

Dy hanes fynwn ganddynt
Yn gywir ar ei hyd.

Ai llofrudd a gyflawnodd
Dy anamserol dranc?
Ai'n aberth i greulondeb
Yr aethost, brydferth lanc?
Ai ynte marw'n unig
Trwy newyn yn y llwyn,
Heb neb i'th gynorthwyo,
Na gwrando'th athrist gwyn?

Ond ofer yw ymholi,
'D oes yma neb a rydd
Un llewyrch o oleuni
Ar y dirgelwch prudd;
Pan ddaw'r anfeidrol Farnwr,
Ar ei urddasol sedd,
Daw'n amlwg holl ddirgelion
Y prudd unigol fedd.

Uwchben y bedd unigol,
Ymgesglwch, adar mân,
A phynciwch hwyr a boreu,
Ryw bruddaidd alar-gân;
Y gwynt, tynghedaf dithau,
Wrth chwiban trwy y llwyn,

Tros ben y bedd unigol,
Gwna brudd ddolefus gwyn.

Y coed a'r glaswellt hefyd,
Galarwch yr un wedd,
Eneiniwch gyda'ch dagrau
Y tlawd unigol fedd ;
Cyfrana dithau, anian,
Dy dlysnï arno'n hael,
A chwrlid tlws o flodau,
Gorchuddia'r beddrod gwael.

CAN GENEDLAETHOL.

MESUR—"BRYFELGYECH GWYR HARLECH."

Os cefnasom ar ein hen-wlad,
Yr hen genedlaethol deimlad
Fyddo byth, fel deddf atdyniad,
Yn ein dal yn nghyd ;
Bydded ysbryd ein Caradog,
A'n Llewelyn, olaf d'wysog,
Yn meddianu'n cenedl enwog,
Yn mhob parth o'r byd ;
Bydded i bob Brython
Goffio'n tadau dewrion,
Peidio byth a gostwng pen

Er maint fo sen gelynion ;
 Boed rhinweddau yr hen dadau
 'N drysoredig ynom ninau,
 Gwaed Brythonaidd ein calonau
 Fyddo'n bur o hyd.

Meibion Gwalia, byddwn wladgar,
 Carwn ein hanwyl-wlad hawddgar,
 Nid oes lanerch ar y ddaear
 Ail i Wlad y Gân ;
 Carwn ei mynyddoedd uchel,
 Carwn ei dyffrynoedd isel,
 Carwn ei phentrefi tawel,
 A'i haneddau glân.
 Gwlad yr hen Dderwyddon,
 Anwyl wlad y dewrion,
 Gwlad yr awen uwcha'i dawn,
 A gwlad sydd lawn o swynion ;
 Gwlad sydd deilwng o uchafiaeth,
 Ydyw gwlad ein genedigaeth,
 Rhoddwn iddi barchedigaeth,
 A'n gwladgarol dân.

Na foed ini yn dragywydd
 Efelychu Dic Shon Dafydd,
 Trwy fradychu'n iaith ddieilydd—
 Carwn iaith ein gwlad ;

Iaith odidog ein cyndadau,
Iaith doreithiog ei thrysorau,
Oes y byd i iaith ein mamau,
 Gwaeddwn Gymry mad.
 Hwtier yr ynfydion,
 Wadant iaith y Brython,
Nid ydyw y fath fradwyr erch,
Yn haeddu serch ein calon ;
Lle priodol y rhai hyny,
Yw rhwng muriau y gwallgofdy,
Neu yn nghyffion y carchardy,
 Am eu herchyll frad.

Da yw dysgu iaith y Saeson,
Ac efrydu ieithoedd meirwon,
Iaith ein gwlad yw iaith ein calon,
 Nac anghofiwn hon ;
Dyma'r iaith sydd ag allweddau,
Ddetyd gloion ein teimladau,
Chwery dannau y serchiadau
 Sydd o tan ein bron ;
 Boed i'r Eisteddfodau,
 Gloddio ei thrysorau,
Dwyn yn nghyd i olwg byd,
Ei thrysor drud a'i pherlau ;
Bendith ar yr hen sefydliad,

I ledaenu hedd a chariad,
 Nid yn unig yn ein hen-wlad,
 Ond trwy'r ddaear gron.

“OES Y BYD I'R IAITH GYMRAEG.”

Mae gau brophwydi 'n haeru,
 Yn awr er's amser maith,
 Fod angeu'n prysur gloddio
 O tan sylfeini'n hiaith ;
 Yr â'i hacenion cryfion,
 Tan garnau'r ceffyl tân,
 Na bydd ond iaith y Saeson
 Cyn hir yn “ngwlad y gân.”

Na, na, er maint weryro
 Trwy gymoedd hoff y wlad,
 Adseinia'r heirdd glogwyni
 Mewn gwawd ei feiddgar nâd;
 Nid yw hen iaith y Cymry
 Mor hawdd i'w lladd ychwaith;
 Er gwaethaf daroganwyr,
 Bydd oes y byd i'n hiaith.

Tra fyddo Cadair Idris,
 A'r enwog Wyddfa fawr,
 Hen freninesau'r bryniau,

A'u hoesol draed i lawr ;
Tra bo'u daneddog greigiau
Yn gwatwar trwst y nant,
Hen iaith odidog Cymru
Siaradir gan ei phlant.

Tra byddo cenedlgarwch
Yn elfen tan eu bron,
Tra bo Gomeriaid cywir
Ar wyneb daear gron,
Eu henwog iaith a gadwant,
Pe collent Gymru lân ;
Byw fydd hen iaith y Brython
Pan elo'r byd ar dân.

Er maint a gabla'r gelyn
Ar iaith yr Ch a'r Ll,
Dywedaf heb betrusder,
Na fedd y byd ei gwell ;
Ei gwreiddiol gyfansoddiad
Sydd gadarn fel y graig,
Anhawddach ei difodi
Na dyhysbyddu 'r aig.

FY ANWYL WAITH FY HUNAN,

NEU YMSON V FAWR.

'R wy'n meddwl llawer iawn
 O f' anwyl waith fy hunan,
 Ni cheir ei fath trwy'r byd,
 Er manwl chwilio pobman ;
 Mae holl ragorion bardd,
 Bob un yn cydgyfarfod,
 Er gwneyd fy enaid mawr
 I mi yn wrthddrych syndod ;
 Mae'r ddaear erbyn hyn
 Yn teimlo fy mod arni,
 A dylai dynolryw
 Oll roi gwarogaeth imi.
 Mae rhai yn dechreu gwel'd
 Fy mawredd anfesuroi,
 Ei weled oll ni chânt,
 Er syllu yn drag'wyddol ;
 Mae megys môr didrai,
 Dilan, diwaelod hefyd,
 A llynca iddo 'i hun
 Holl fawredd beirdd yr hollfyd.
 'D oes ryfedd fod fy ngwaith
 Yn llawn o bob rhagoriaeth,
 Oblegid yr wyf V
 Yn gyfrol o athroniaeth.

Myn llawer roddi clod
 Mawr i'r prif fardd Prydeinig,*
 Gorfola eraill waith
 Di-flas prif fardd Amerig; †
 Nid yw eu gweithiau hwy
 Ond gwael, difywyd, egwan,
 'D oes dim yn haeddu clod
 Ond f'anwyl waith fy hunan.
 I beth y sonir mwy
 Am Virgil, Dante, a'u tebyg;
 Nid ydynt, wrthyf fi,
 Ond pryfaid dirmygedig ;
 Nid yw Coll Gwynfa Milton,
 Ac Iliad Homer, druan,
 Ond hen rigyman tlawd
 Wrth f'anwyl waith fy hunan.
 'R wy'n synu na b'ai pawb
 'R un farn a V yn hollol,
 Yn nghylch fy anwyl waith,
 Ac yntau mor rhagorol ;
 Mae'n rhaid fod dynion tan
 Ryw erch ddallineb barnol,
 On'de fe welai pawb
 Fy ngwaith yn haeddu'i ganmol;
 Edrycha ambell un
 Mor ddwl, yn wir, a bwgan,

* Tennyson. † Longfellow.

Os soniaf wrtho air
 Am f' anwyl waith fy hunan ;
 'D wyf finau'n cael un gradd
 O fwyniant pur yn unman,
 Os na fydd yno son
 Am f' anwyl waith fy hunan.
 Pan ddaw fy ngwaith trwy'r wasg,
 Cyngorwn bawb i'w ddarllen,
 Gael iddynt wel'd mai V
 Yw archoffeiriad awen.

PR TRWYNLWCHWR A'R MYGLYSWR.

Trown i luchio trwynlwchwr—â cheryg,
 A churo'r myglyswr
 A ffyn, nes bo'n syn yn siwr,
 A'i rifo gyda'r yfwr.

*"AGOR DY LYGAID CYN AGOR
 DY GEG."*

Hen gyngor priodol a hynod o gall
 Adroddai 'r hen bobl y naill wrth y llall,
 Pan fyddai rhyw rai yn dueddol ar dro, ;
 I redeg ar ol anwireddau y fro,

A choelio pob chwedlau, 'n enwedig rhai cas,
 A charu gwel'd pawb mewn rhyw helbul diras;
 Mae'r cyngor o hyd yn briodol a theg,
 Sef "Agor dy lygaid cyn agor dy geg."

Os gweli ryw glebren yn myn'd ar ei hynt,
 Hyd dai y cym'dogion ar dori ei gwynt,
 Fel pe o dan gyflog gan frenin y fall,
 I lunio celwyddau a chwilio am wall,
 A gyru'r cym'dogion i ffraeo mewn gwg,
 Er mwyn rhoi difyrwch i'w thad, y gwr drwg ;
 Wel dywed ar fyr wrth y glepwraig annheg
 Am agor ei llygaid cyn agor ei cheg.

Os dywed un arall dan wenu yn llon,
 Mi glywais fod Rhywun ar ol Hon-a-hon,
 A'u bod hwy yn son am briodi cyn hir;
 Pryd na fydd un gair o'i hystori yn wir ;
 Paid coelio'r fath beth, os na weli dy hun,
 Y dyn hwnw, Rhywun, yn nghwmni y fun ;
 Gofala bob amser am wneyd chwareu teg,
 Trwy agor dy lygaid cyn agor dy geg.

Os clywi un arall o deulu'r "hen was,"
 Yn dweyd am grefyddwyr ryw bethau lled gas,
 Fod i rai o honynt y ffordd yn rhy gul,
 Fod eraill yn caru hyd foreu dydd Sul ;
 Ac fod rhai yn yfed o hyd yn ddibaid,

94 GWELL GWRAIG O'I CHANMOL.

Ac eraill yn myn'd i'r *saloon* yn un haid ;
Wel dywed wrth hwnw, er mwyn chwareu teg,
Am agor ei lygaid cyn agor ei geg.

Nid merched yw pawb sy'n chwedleua
ychwaith,
A chadw eu cegau 'n ddiderfyn ar waith,
I drin ac i drafod achosion pob dyn,
A llwyr esgeuluso eu busnes eu hun ;
Mae dynion gwrachiaidd yw cael yn ein mysg,
Heb ronyn o synwyr na defnyn o ddysg ;
Wel cofier i ddweyd wrth bob elebryn annheg,
Am agor ei lygaid cyn agor ei geg.

“GWELL GWRAIG O'I CHANMOL.”

[DIAREB.]

Os ydych am fywŷd o fwyniant di-glwy',
Canmolwch eich gwragedd, beth bynag wnant
hwy ;

Os cewch na fydd botwm ar goler eich crys,
A chwithau ar gychwyn i rywle ar frys,
Dywedwch wrth Mari heb wg ar eich ael,
Nad oes ar y ddaear well gwraig fach i'w chael.

Wrth fwyta'ch boreubryd canmolwch bob
peth,
A d'wedwch ei bod am goginio 'n ddifeth,

Fod blas bendigedig ar bobpeth o'i llaw,
Ei bod yn well filwaith na gwraig y tŷ draw ;
A rho'wch iddi gusan wrth fyn'd at eich
gwaith,
Bydd hyny yn well na holl eiriau yr iaith.

Os na fydd y bwyd ar y bwrdd yn ei bryd,
Dywedwch nad ydyw o bwys yn y byd ;
Edrychwch yn siriol, chware'wch gyda'r plant,
Heb ddangos fod arnoch nac angen na chwant ;
Ac os bydd y llestri yn fudron bob tro,
Dywedwch mai hi yw'r wraig lana 'n y fro.

Os ffræo y bydd ambell dro â rhyw rai,
Dywedwch mai ar y rhai hyny mae'r bai,
Mai cartref tangnefedd, addfwynder, a bri,
A chariad pur ydyw ei chalon fach hi ;
Nad oes ar y ddaear, yn agos na phell,
Neb fedrai gyd-fyw â'i chym'dogion yn well.

Os ydyw'n gwastraffu a gwario 'n lled hael,
Dywedwch nad oes ei chynilach i'w chael ;
Ac os ar hyd tai y cym'dogion bob dydd,
O foreu hyd hwyr, yn chwedleua y bydd ;
Beth bynag a wnelo, canmolwch hi'n wir,
Ac yna fe wawria'r milflwyddiant cyn hir.

“TROION GWYDDELIG.”

Mae llawer o ryw Gymry
 Gwyddelig iawn i'w cael,
 Eu prif hyfrydwch beunydd
 Yw gwneuthur troion gwael;
 Hwyl chwarddant yn eich gwyneb,
 Pan yn trywanu'ch cefn,
 Cusanant chwi'n Wyddelig,
 A lladdant chwi drachefn.

Ni feddant y gwroldeb,
 Pan na b'ont o'r un farn,
 I'ch croesi yn eich gwyneb,
 A dadleu hyd y carn;
 Ond d'wedant, Ie, ie,
 A neidiant hwnt i'r gwrych,
 I'ch saethu yn ddirgelaidd—
 Maent yn Wyddelod gwych.

Mae ambell un o honynt
 Yn tynu gwyneb hir,
 A mynant gael eu cyfrif
 Yn dduwiol iawn yn wir;
 Ond tan y gochl ymguddia
 Y galon ddieffig ddu;
 Gocheler y Judasiad,
 Maent yma eto, lu.

Hwy ffugiant fod yn onest,
 Ac anrhydeddus iawn,
 Ond dyma rai na thalant
 Eu dyled byth yn llawn ;
 Y mae eu haddewidion
 Yn llyfnion ac yn deg,
 Ond nid yw yn eu bwriad
 Gyflawni un o ddeg.

'D oes dim rhy fawaidd ganddynt,
 Gyflawni hwnt i'r llen,
 Er duo'r cymeriadau
 Dysgleiriau tan y nen ;
 Ond dichon mai'r peth gwaethaf
 A fedrant, blant y gwyll,
 Fydd anfon i'w gelynyon
 Hen *Valentine* led hyll.

Mae hyn yn eglur ddangos
 I bawb, os gweled fyn,
 Iselder dirmygedig
 Meddyliau y rhai hyn ;
 Mae'n wir na cheidw'r diafol
 Ei weision erch yn hir,
 Ond daw eu budr amcanion
 I'w gwel'd mewn goleu clir.

Na alwer neb o honynt
 Ar enwau Cymry mwyr,

Ond enwau llwyr Wyddelig
 Fo mwyach arnynt hwy ;
 Ac aed y brad-lofruddion
 I gyd i'r Ynys Werdd,
 A ninau gan lawenydd
 A ganwn felus gerdd.

Y FAM A'I PHELENTYN CLAF.

Y mae dy ddirdynol boenau,
 Imi 'n fin, f' anwylyd bach ;
 'R wyf yn barod i aberthu
 Pobpeth er dy gael yn iach ;
 O na allwn, yr un anwyl,
 Ddyodde'r poenau yn dy le ;
 Am dy adfer 'rwy'n gweddio,
 Ddydd a nos ar Frenin ne'.

Y mae pob anadliad dyni,
 Os na fydd yn hollol rydd,
 Yn dir-rwygo'm clwyfus fynwes,
 Rhag ofn mai yr olaf fydd ;
 Beth a wnaif os rhaid dy golli ?
 O pa fodd y gallaf fyw ?
 Meddwl am y peth a'm lletha,
 Gwna fy nghalou wan yn wyw.

FY NHEIMLAD MEWN CYSTUDD,
1861.

Nid yw holl fwyniant gwael bleserau'r llawr
Yn werth fy sylw haner mynyd awr ;
'Rwy'n teimlo 'mod i ado'r ddaear hon,
'Rwy'n tynu tua'r bedd—'rwyf yno bron ;
Mae arswyd yn brawychu f' enaid gwan,
Wrth feddwl croesi'r afon yn y man.

Y lle dedwyddaf imi'r dyddiau hyn,
A fyddai tawel fwth ar ael y bryn,
A phawb o'm cylch yn drist a phrudd eu
gwedd,

Pob un yn teimlo 'i fod ar fin y bedd ;
Ond Ah! nid felly mae, ond pawb yn llon,
'Does neb ond mi fy hun yn brudd ei fron ;
Mae pawb o'm cylch yn llawen ac yn iach,
O'r henwr penllwyd hyd y baban bach ;
A natur fel yn chwerthin am fy mhen,
A phob creadur yn rhoi imi sen.
Pan drof fy ngolwg tua'r cwm yn brudd,
Llawenydd yn ddiderfyn yno sydd ;
Ymbrancio'n llon y mae'r diniwed wyn,
A'r fronfraith, hithau byncia'i hanthem fwyn ;
Y delynores fraith ar frigyn cain,
A byncia odlau o bereiddiaf sain,
A'r dawnswyr bychain yn eu gwisgoedd can,
Yn neidio 'n ol a blaen o fan i fan.

Ond Ow! er cymaint eu llawenydd hwy,
Fy nghalon athrist i sydd bron yn ddwy,
Gan ofnau dwys fod angeu, elyn llym,
Yn tynu lawr fy mhabell bridd, ddi-rym ;
Tan aethau'r teimlad tor-calonus, prudd,
'Rwy'n wael fy ngwedd, a'r dagrau'n rhychu
'ngrudd.

Pwy wyr na welir finau 'n berffaith iach,
Ar fryniau Gwynfa yn mhen gronyn bach?
Mae genyf Frawd, 'does Feddyg fel efe,
Trwy'r ddaear faith na'r annherfynol ne'.

FY MHROFIAD MEWN CYSTUDD,

1881.

'Rwy 'n teimlo lawer pryd,
Awelon arall fyd,
Yn chwythu arnaf ;
A theimlaf yn ddiâu,
Fy mhabell egwan, frau,
Yn prysur agoshau
I'w chartref olaf.

Rhyw dywyll iawn fu'r daith,
Ac ofnau lawer gwaith
Rhag i'm gelynion
Gael dwyn fy mhen i lawr

Dan ryw waradwydd mawr—
Ymleddais lawer awr
A phla fy nghalon.

'R wy 'n ofni'r dyddiau hyn
Fy mod yn ymyl glyn
Du afon angau ;
Fy enaid sydd mewn braw,
Rhag fod ei llif gerllaw,
A th'w'llwch y tu draw
I'w geirwon donau.

O ! am gael golwg glir
Ar ryfedd sanctaidd dir
Y byd ysbrydol ;
Ac am i'm henaid gwan
Gael Iesu Grist yn rhan,
I'w ddwyn yn iach i'r lan,
I'r Ganaan nefol.

HIRAETH AM GYMRU.

Pan yn ysgrifenu at y cyfaill awenber JOHN EDNO ROBERTS, Mai, 1877, o Calumet, Mich., tarawyd fi gan y pruddglwyf, a thorodd allan fel y canlyn :

O na chawn i gwmni Edno,
Neu ryw fardd am ddwyawr heno,
Mae y pruddglwyf bron a'm llethu,
Wrth fyfyrio 'n awr am Gymru.

Dyma Fai, ond lle mae 'i swynion ?
 Lle mae'r dolydd, lle mae'r meillion ?
 Lle mae'r gôg yn melus byncio ?
 Lle mae'r hoenus wyn yn prancio ?

Lle mae'r bugail yn chwibanu ?
 Lle mae'r defaid hoff yn brefu ?
 Lle mae cerddi'r llon forwynion,
 Pan yn godro'r gwartheg blithion ?

Lle mae'r coed a'r gwrychoedd gwyrddion
 Sydd yn llawnion o gerddorion ?
 Lle mae'r blodau'n perarogli ?
 Lle mae'r rhosyn, lle mae'r lili ?

Braidd na charwn gael fy nhafu
 I ben un o fryniau Cymru,
 Er cael golwg unwaith eto
 Ar ei swynion cyn fy mhriddo.

 HENAINT.

"NI DDAW HENAINT DDIM EI HUNAN."—*Diareb.*

Yn wir, ddyn, 'rwy'n gorfod coelio,
 Fy mod inau yn heneiddio ;
 Er yn *teimlo* megys hogyn,
 D&w rhyw argyhoeddiad wed'yn,

Brawf fy mod ar lechwedd amser,
 Yn cyflymu ar fy nghyfer
 Tua dyffryn gorthrymderau,
 Lle mae henaint a'i ofidiau.

Mae y clyw yn dechreu pallu,
 Golwg hefyd sydd yn pylu,
 ('R wyf yn dechreu gwisgo "spectol,")
 Ac mae'r cof yn bur ddiffygiol ;
 Rhyfedd iawn, daw llawer aflwydd,
 Pan mae dyn yn haner canmlwydd ;
 Mae hen air sydd wir yn mhobman,
 "Ni ddaw henaint ddim ei hunan."

 GALAREB .

**AMŶY DIWEDDAR MR. JOHN DAVIES, FEGLA-FAWR,
 BLAENOR PARCHUS GYDA Y M. C. YN SEION,
 ARTHOG, MEIRION, G. C.**

**Mae'n weddus galaru pan gollir o'r byd
 Ddewr filwr o fyddin yr Iesu ;
 Mae rhengau y fagddu yn feiddgar o hyd,
 Am fynu yn hollol orchfygu ;
 Mae colli hoff swyddog dan faner y groes,
 Yn golled nas gellir ei phrisio ;
 Mae Seion yn Arthog yn awr o dan loes,
 Mae un o'i ffyddloniaid yn huno.**

Mae'r anwyl John Davies yn huno'n y bedd,
 Mae canoedd yn brudd wrth adgofio
 Am un oedd a'i fynwes yn orlawn o hedd,
 Un nas gellid peidio'i anwylo ;
 Ni welid byth gwmwl du gwg ar ei ael,
 Na llid yn melltenu 'n ei lygad ;
 Y gras o addfwynder oedd ynddo yn hael,
 Mae'n anhawdd cael purach cymeriad.

Fel priod, un tirion a serchog oedd ef,
 Fel tad, yn un tyner a siriol ;
 Addysgai ei deulu yn neddfau y nef,
 Gogyfer a'r cartref trag'wyddol ;
 Yr oedd fel cymydog yn hawddgar bob pryd,
 A pharod i wneuthur cymwynas,
 Fel Cristion, fe dynodd ei gwys ar ei hyd,
 Yn union, trwy'r anial i'r Deyrnas.

Nid weithiau yn danllyd, bryd arall yn oer,
 Y byddai efe wrth grefydd ;
 Nid crefydd yn newid can amled a'r lloer,
 Oedd crefydd John Davies, y Fegla ;
 Ond un oedd mor anghyfnewidiol a'r graig,
 Er gwaethaf ystormydd yr anial ;
 Os byddai trallodau fel tonau yr aig
 Yn curo, 'roedd e'n ddianwadal.

Nid oedd yn nodedig o ddoniol a ffraeth,
 Ac nid oedd yn fawr ei athrylith,

Ond trwy ei ffyddlondeb ei Arglwydd a'i
gwnaeth

Er hyny i lawer yn fendith ;

Da was, da a ffyddlon ar 'ehydig bu ef

Yn ngwinllan ei Arglwydd tra yma,

Ond heddyw 'n mwynhau pur lawenydd y nef

Mae'r didwyll John Davies y Fegla.

Fel blaenor eglwysig, bu'n ffyddlon a chall,

Yn arwain am feithion flynyddau ;

Os clwyfid rhai weithiau gan saethau y fall,

Fe driniau yn dyner eu clwyfau ;

Ac os byddai cweryl gofidus ar dro,

Rhwng rhai yn proffesu duwioldeb,

'D oedd neb am heddychu o'i fath yn y fro,

O herwydd ei nefol diriondeb.

BLWYDDYN I HENO.

[CYFANSODDWDYD IONAWB 31, 1877.]

Mewn cymysg deimladau mae miloedd trwy'r
byd,

Wrth gofio am " flwyddyn i heno ;"

Mae rhai wrth adgofio, yn llawen eu bryd,

Ac eraill gan dristwch yn wyllo ;

Mae rhywrai bob nos trwy yr oesau yn brudd,

Mewn trallod yn dwys ocheneidio ;

Mae pawb yn cyfarfod ryw dro yn eu dydd,
A thrallod eu "blwyddyn i heno."

Mae llawer gwraig dyner a'i chalon yn ddwy,
Nis gall yr holl fyd ei chýsuro,
Yr oll a all dd'wedyd gan ddyfnder ei chlwy',
Trwy ddagrau, fydd, "blwyddyn i heno;"
Ni ddichon ei thafod byth adrodd ei chwyn,
Mae iaith yn rhy wan i ddarlunio
Yr hiraeth a deimla am gydmar mor fwyn,
A gollodd hi "flwyddyn i heno."

Mae llawer rhieni a'u calon yn friw,
Wrth gofio am un sydd yn huno—
Eu plentyn, a'u hunig un anwyl a gwiw,
Fu farw, do, "flwyddyn i heno;"
'R wyf finau yn teimlo dwfn hiraeth a loes,
Am rywun nas gallaf anghofio ;
Meddyliaf yn fynych hyd derfyn fy'oes,
Mewn galar, am "flwyddyn i heno."

NI CHEL GRUDD GYSTUDD CALON

"O, pa le mae cydymdeimlad?"
Dwys ddolefai llanc amddifad ;
"Gyda'm rhiaint yn y beddrod,
Nid oes imi mwy ond trallod;"

Llifa 'i hiraeth fel rhaiadrau
Poethion, troſ ei welwon ruddiau ;
Ar ei wedd mae'n eglur ddigon,
Na chêl grudd ei gystudd calon.

Dacw ddau yn araf rodio
Tua'r gladdfa i addurno
Beddrod oer eu hunig blentyn,
Gyda thyner flodau'r dyffryn ;
Gwlybion yw eu gwelwon ruddiau,
Hiraeth rwyga eu calonau ;
Y maent bron mor wyw a meirwon,
Ni chêl grudd eu cystudd calon.

Beth sydd wedi gwywo'r rhosyn
Oedd ar rudd yr eneth addfwyn ?
Yn lle cân a gwenau siriol,
Dwys ochenaid calon-rwygol ;
Fflam y serch oedd yn ei llygad,
Droes yn ffynon chwerw deimlad ;
Claddodd wrthddrych ei gobeithion,
Ni chêl grudd ei chystudd calon.

Y llanc sy'n mhell o'i wlad,
A hiraeth dan ei fron,
Mae'n estron i fwynhad,
Er ffugio bod yn llon ;

A gofid dwys ei galon sydd
Yn argraffedig ar ei rudd.

Yr eneth ieuanc fwyn,
Mae'n ceisio cuddio'i chur,
Ni ddywed byth ei chwyn,
Dihoenâ'i chalon bur;
Ond gwelir ei holl drallod cudd
Yn amlwg ar ei gwelw rudd.

Nid yw y dyner fam,
Ar ol ei phlentyn glwys,
Yn dweyd yr haner am
Ei thristwch mawr ei bwys;
Ond y mae iaith ei chalon brudd
Yn ddarllenadwy ar ei grudd.

PHONOGRAPHIA.

Cyfansoddwyd y llinellau canlynol ar ol derbyn "Y Phonographwr," cyhoeddiad Llaw Fer, oddiwrth Mr. EVAN W. EVANS, gohebydd cyflogedig *Y Goleuad*.

Mi glywais son am "fwgan brain,"
Ai dyna, Evan, ydyw'r rhai'n?
Fu 'rioed fath dryblith, goeliâf fi,
A'th hynod Phonographia di;

Ai'r "Ellyll" ddaeth o'r "Ceubren" du,*
I *scriblo* hanes Cymru fu,
Mewn nodau hagr cyfriniol iawn,
Sy'n deilwng o'i elyllaidd ddawn?
Pe gwnelsit hyn yn Nghymru gynt,
Ti gawsit gerydd, daliaf bunt;
Edrych'sid arnat gyda gwg,
Fel codwr yr ysbrydion drwg;
Os byddai farw buwch neu lo,
Taenasai dychryn dros y fro;
'N ol ofergoeledd llawer rhai,
Tydi a'r diafol gawsai'r bai;
Ac yna buasai rhedeg mawr
I erfyn am roi'r d—l i lawr.

Ond diolch, nid yw Cymru gu
Mor ofergoelus ag y bu;
Trwy'r wasg a gweinidogion hedd,
Rhoed ofergoeledd yn ei fedd.

BETH YW CARTREF?

Cartref yw'r anwylaf enw,
O holl swynol enwau'r llawr;
Nid oes dim all leddfu'r hiraeth

* Yr oedd y geiriau "Ceubren yr Ellyll," mewn llaw-ysgrif gyffredin, yn nghanol nodau cyfriniol y llaw fer.

Deimlaf fi am dano 'n awr ;
 Nid goludoedd, ac nid moethau
 Gyfansoddant gartref mad,
 Ond mae yno rywbeth cryfach,
 Dyfnach, purach, ei fwynhad.

Cariad, dyna'r elfen ddwyfol
 Gyfansodda gartref iawn ;
 Nid oes arall leinw'r galon
 O ddedwyddwch pur yn llawn ;
 Er holl gyfoeth byd a'i foethau,
 A phleserau'r llawr yn nghyd,
 Heb fod cariad ar yr orsedd
 Gwag fydd holl gartrefi'r byd.

Ail argraffiad bach o'r nefoedd,
 Yw'r gwir gartref ar y llawr,
 Yma megir pèr blanigion
 I'r anfeidrol winllan fawr ;
 Ysgol ddwyfol cariad ydyw,
 I addysgu dyn am Dduw ;
 Allor i offrymu'r galon
 I Dduw'r cariad, dyna yw.

PENENWAD (ACROSTIC). 111

YMSON RHEINI AR OL GENETH FECHAN WYTH
MLWYDD OED.

Môr tonog amser ar ei daith drag'wyddol,
A gludodd yr un hoff i'r ddinas nefol ;
Rhyw hiraeth prudd sy'n dryllio ein calonau,
Yn boddi mae pob mwyniant yn ein dagrau.

Enyna'n tristwch wrth adgofio 'i llonder,
Holl wenau'r byd sy'n awr yn chwerwi'n
prudd-der.

Unigrwydd dwfn yn nghanol tyrfa deimlwn,
Mae hebddi hi y byd yn wag, dybygwn ;
Pa fodd y daliwn dan ein dwys ofidiau ?
Hen fyd yw hwn sy'n orlawn o drallodau ;
Rheolwr mawr y byd, y Duw trag'wyddol,
Efe a'i galwodd i'w gorseddfaine nefol ;
Yn awr y mae ei "Mawl i'r Iesu" 'n swynol.

Wylasom lawer ar ol iddi gefnu,
Esgynodd hithau fry i'r nef i ganu ;
Saint ac angelion yw ei chwmni dyddan,
Tra ninau'n drist tan bwys gofidiau'n gruddfan.

Bydd cyrhaedd i orphwysfa'r Ganaan nefol,
Ar ol ein taith flinderus yn ddymunol ;
Nid yw y byd a'i holl fwynderau bellach ;
Gan faint ei rwysg a'i fri, i ni ond sothach ;
O fewn i'r llen mae angor ein calonau,
Rho'wn ffarwel mwy i wagedd byd y croesau.

*PENENWAD.**

I chwi dymunaf, gyfaill llon,
 O bob bendithion daear gron ;
 A'r fendith fwyaf o bob un,
 Nid twr o aur, ond tirion fun.

Trueni fyddai caffael gwraig
 A feddai natur fel y ddraig ;
 Llaweroedd sydd o'r fath yn bod,
 Ond o bob bendith ddichon ddod,
 Gwraig dda yw'r benaf is y rhod.

Dymunaf hefyd i chwi fwy,
 Am nef orphwysfa 'n ol myn'd trwy
 Vlinderau a gofidiau'r llawr,
 I foli y Gwardedwr mawr ;
 Efe mor ddrud a'ch prynodd chwi,
 Sy'n eiriol hefyd trosoch fry.

SERCH GAN.

I chwi, fy anwyl Gwen,
 Y lanaf is y nen,
 Yr eiliaf gân ;
 Eich grudd sydd fel y rhos,

* Ysgrifenydd yr uchod yn *Album* un o'r cyfeillion puraf, mwyaf dirodres a diymhongar, yn y byd.

Ac am eich gwefus dlos,
Breuddwydio wnaf bob nos,
Fy ngeneth lân.

My idol and my queen,
The world has never seen
A purer lass ;
The man that cannot find
Perfections of all kind
In you, he must be blind,
And perfect ass.

Melusach fyrdd na'r gwin,
F'ai cusan ar eich min,
Y fynydd hon ;
O! peidiwch, anwyl Gwen,
A rhoddi imi sen,
Na chwerthin am fy mhen,
I glwyfo'm bron.

A king would fall in love
With you, my heavenly dove,
I do believe ;
And angels would adore
Your lovely beauties more
Than any queen's before,
Since mother Eve.

Eich llaw mor brydferth yw,
 Ni allaf yn fy myw
 Anghofio hon ;
 Yn wir, 'rwy'n teimlo blys
 I'ch cipio gyda brys,
 A rhoi eich trydydd bys
 Mewn modrwy gron.

You are my all in all,
 O ! I would like to call
 You my dear wife !
 We cannot live apart,
 The thought would break my heart,
 Come, darling, let us start
 The blissful life.

LLINELLAU

I RICHARD J. ROSSER, PLENTYN BYCHAN MR. A
 MRS. RICHARD A JANE ROSSER, CLEVELAND,
 IOWA.

O ! Richard bach, mae'th wenau llon,
 Yn ysgafnhau fy nhrymllyd fron ;
 Mor foddllawn, siriol, yw dy wedd,
 Mae'th galon fach yn llawn o hedd ;
 Hapusrwydd yw dy ran o hyd,
 Ni wyddost ddim am boenau'r byd ;

Er nad wyt fawr dros flwyddyn lawn,
 Mae genyt lygad doniol iawn ;
 Ac er na fedri siarad dim,
 Mae dawn yn myw dy lygad chwim ;
 A thegan bychan ar y llawr,
 Chwareui 'n ddifyr lawer awr.

Hir fyddo'th oes, a dedwydd iawn,
 A'th gwpan yn y byd fo'n llawn ;
 A'r nef fo'th gartref, Richard John,
 Pan gefni ar y ddaear hon.

Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol cyfansoddi yr uchod, taraw-
 wyd yr un bychan gan y *diphtheria*, a bu farw yn fuan.

 ENGLYNION.

Anfonwyd yr englyn canlynol mewn llythyr i'r diweddar Mr.
 EDWARD JONES (Iorwerth Goes Hir), Llansantffraid, Corwen.

Oeri y mae, O ! eira mawr—rhew-wynt
 Sy'n rhuo yn ddirfawr ;
 Gwynfa gywreindeg enfawr,
 Hardd oer lwch yw'r ddaear lawr.

Wela ei atebiad yntau :

Nawd ias oer, nid oes eira—na du-rew,
 Na dur rhwym, ffordd yma ;
 Nodais ei hin, nid oes ia,
 I'w gweled ar dir Gwalia.

Bro lon Edeirnion bob dydd—man gardd Ion,
 Mewn gwerdd wisg ysblenydd ;
 Bronau dail, bryniau dolydd,
 Iach a sionc yn edrych sydd.

Chwithau a'r olau chwaer Elin—tro gwael,
 Sy'n trigo mewn dryc-hin ;
 Eira tew i oeri t—,
 Pur arw, Ow ! Pererin.

THE DRUNKARD.

The drunkard is a monster,
 With a gigantic throat ;
 The fish that swallowed Jonah
 To him was but a naught ;
 Without the slightest effort
 He 'll swallow a horse and cart,
 And send the stable also
 Down to his middle part.

He 'll swallow mules and oxen,
 And then he 'll crave for more ;
 I knew one sot that swallowed
 A splendid dry goods store ;

Another one that swallowed
A very large hotel,
No wonder that his body
Around the waist did swell.

Another monster gobbled
A thousand acre farm,
And after all was swearing
He never did no harm ;
Another tippler gorged
A palace and estate,
And then the wretch was cursing
His poor and mis'erable fate.

The sot is not particular,
O, no, he'll swallow hogs ;
He has no Jewish notions—
He'll also gobble dogs ;
The ducks and geese and turkeys,
This fox they can't escape ;
And without hesitation
He'll swallow the ugliest ape.


Why, to his terrible stomach
Indeed there is no bound,
No matter what he'd swallow
He is like a hungry hound ;


THE DRUNKARD.

He 'll swallow his own clothing,
He 'll gobble even his shoes,
And then go round the village
Bare-footed, like a goose.

DIWEDD.


1







1





3 2044 018 890 541

**THE BORROWER WILL BE CHARGED
AN OVERDUE FEE IF THIS BOOK IS
NOT RETURNED TO THE LIBRARY ON
OR BEFORE THE LAST DATE STAMPED
BELOW. NON-RECEIPT OF OVERDUE
NOTICES DOES NOT EXEMPT THE
BORROWER FROM OVERDUE FEES.**

**Harvard College Widener Library
Cambridge, MA 02138 (617) 495-2413**



